# GWYBODAETH IEUENCTID

# LLAWLYFR DULLIAU ac ADNODDAU

## AR GYFER GWEITHWYR GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

**Mehefin 2012**

**Trosolwg**

Mae natur gwaith gwybodaeth ieuenctid yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar lawer o wahanol bethau megis ardal, demograffeg ac ystod oedran. Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys cyngor, arweiniad ac awgrymiadau ar gyfer cyflwyno gwaith gwybodaeth ieuenctid o ansawdd da. Nid yw wedi'i bwriadu i fod yn set o gyfarwyddiadau pendant oherwydd y pethau gwahanol hynny. Mae'r ystyriaethau hyn wedi eu cymryd i ystyriaeth fel eu bod yn addas ar gyfer cyflwyno ystod eang o waith gwybodaeth ar draws sbectrwm cyfan Gwaith Ieuenctid. Mae hyn yn golygu ei fod yn gallu cael ei defnyddio gan bawb o weithiwr gwirfoddol mewn neuadd gymunedol am ddwy awr yr wythnos i weithiwr proffesiynol llawn amser sy'n ceisio sefydlu gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid.

Mae'r atodiadau'n cynnwys manylion cyswllt darparwyr llawer o wybodaeth a ffurflen gyswllt wybodaeth leol ar gyfer unigolion a/neu sefydliadau i ymchwilio a llenwi fel bod ganddynt y wybodaeth orau posibl am yr amrywiaeth a rolau asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardal.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o lyfrgell o Lawlyfrau Dulliau Arfer Da ac Adnoddau ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Fe'ch anogir i ddarllen y llawlyfrau eraill am lu o adnoddau ymarferol sy'n gwella arferion gwaith ieuenctid i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc yng Nghymru.

## Diolchiadau


Awduron a'r Tîm Golygyddol

**Mel Davies** Just @sk, Gwasanaeth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr
**Claire Gardner** CLIC
**Kathryn Allen** Cymru Promo
**John Heffernan** Prosiect Ieuenctid Tanyard
**Hayley Wood** Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad i Waith Gwybodaeth Ieuenctid** | **6** |
| | **a. Pwrpas a Rôl** | **6** |
| | **b. Diffiniadau** | **7** |
| | i Gwybodaeth | 7 |
| | ii. Cyngor | 7 |
| | iii. Arweiniad | 7 |
| | iv. Cyfeirio | 7 |
| | v. Atgyfeirio | 8 |
| | vi. Eiriolaeth | 8 |
| | vii. Cwnsela | 9 |
| | viii. Hawliau a Chyfrifoldebau | 9 |
| | ix. Partneriaeth a Rhwydweithio | 10 |
| **2.** | **Moeseg Gwaith Gwybodaeth Ieuenctid** | **11** |
| | **a. Cyfyngiadau** | **11** |
| | **b. Ffiniau** | **11** |
| **3.** | **Lleoliadau Cyflwyno a Dulliau Ymrwymo** | **13** |
| | **a. Lleoliadau ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuenctid** | **13** |
| | i. Siopau Gwybodaeth | 13 |
| | ii. Darpariaethau Gwybodaeth Symudol | 13 |
| | iii. Parthau Gwybodaeth | 14 |
| | iv. Gweithwyr Ieuenctid ar y Stryd | 14 |
| | v. Darpariaethau Gwybodaeth o Bell | 14 |
| | **b. Dulliau o ymrwymo** | **14** |
| | i. Ymrwymo ymatebol | 15 |
| | ii. Ymrwymo wedi'i dargedu | 15 |
| | **c. Defnyddio technolegau** | **16** |
| | i Negeseuon testun | 16 |
| | ii. Adnoddau Gwybodaeth Ar-lein | 16 |
| | iii. Cyfryngau Cymdeithasol | 16 |
| | iv. Polisi a Chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol | 17 |
| | v. Cynghorion Diogelwch ar-lein ar gyfer Pobl Ifanc | 17 |
| **4.** | **Darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o dan y Deg Pennawd Gwybodaeth Allweddol** | **19** |
| | **a. Addysg a Hyfforddiant** | **19** |
| | **b. Cyflogaeth** | **20** |
| | **c. Amgylchedd** | **21** |

**ch. Teulu a Pherthnasau** **21**

**d. Iechyd** **21**
i. Iechyd Corfforol, Ffitrwydd a Maeth 21
ii. Iechyd Rhywiol ac Atal Cenhedlu 22
iii. Iechyd Emosiynol 22
iv. Iechyd Meddwl 22

**dd. Tai** **23**
i. Digartrefedd 23
ii. Byw'n annibynnol 23

**e. Y Byd, Ewrop, y DU a Chymru** **23**

**f. Y Gyfraith a Hawliau** **24**
i. Hawliau a Chyfrifoldebau 24
ii. Ar ba oedran gaf i...? 24
iii. Dosbarthiadau Cyffuriau, y Gyfraith a Chanlyniadau 24

**ff. Arian** **25**
i. Budd-daliadau 25
ii. Cyllido 25
iii. Cyfrifon Banc 25
iv. Dyled 25
v. Menter Ieuenctid 25

**g. Chwaraeon a Hamdden** **26**

**5. Datblygiad Personol a Phroffesiynol** **27**

**a. Datblygiad Proffesiynol Parhaus** **28**

**b. Hyfforddiant argymelledig ar wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd** **28**

**c. Goruchwylio** **29**

**6. Rheoli Ansawdd** **30**

**a. Safonau Ansawdd** **30**

i. Gosod y Safon 30
ii. Sicrhau Ansawdd 30
iii. Hunanasesu 30
iv. Hunanasesu Manwl 31
v. Cyfrifoldeb dros y Broses Ansawdd 31
vi. Esiamplau o ddatblygu Safonau Ansawdd 32
vii. Cynnwys Defnyddwyr a'u Boddhad 33
viii. Monitro a Gwerthuso 33

**b. Dibynadwyedd ffynonellau** **34**
i. Systemau Sicrwydd Ansawdd: Dulliau a Phrosesau 34
ii. Asesiad Allanol 34
iii. Dilysu Gwybodaeth 35
iv. Cynnwys Pobl Ifanc 35
v. Arolygiaeth Ieuenctid 35

**c. Cofnodi canlyniadau ac ymyriadau** **36**
i. Canlyniadau a Chofnodi 36
ii. Manteision Cofnodi ac Adrodd 36

**ch. Canlyniadau Gwerthuso** **37**
i. Monitro a Gwerthuso 37
ii. Diogelu, Cyfle Cyfartal ac Ansawdd 37

**7. Arferion a Gweithdrefnau Prosiect / Sefydliadau** **39**

**a. Diogelu ac Amddiffyn Plant** **39**

**b. Diogelu Data a chyfrinachedd** **40**

**8. Cysylltiadau Defnyddiol** **41**

**Atodiad** **46**

**Ffurflen Gyswllt am Wybodaeth leol** **46**

# 1. Cyflwyniad i Waith Gwybodaeth Ieuenctid

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cysyniad o wybodaeth a'i bwysigrwydd o fewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Mae'n rhoi trosolwg manwl o'r egwyddorion y tu ôl i waith gwybodaeth ieuenctid, yn cynnwys diffiniadau ac esboniadau o'r mathau ac yn tynnu sylw at y pethau y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl ifanc eu hystyried fel rhan o'u gwaith.

## a. Pwrpas a Rôl

Mae hi'n haws nag erioed i bobl ifanc gael gafael ar amrywiaeth eang iawn o wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau, felly mae mwy o angen i'w cefnogi i gael gafael arno a gwneud synnwyr o'r ffynonellau sydd ar gael iddynt. Mae dibynadwyedd a pherthnasedd wrth wraidd gwasanaethau gwaith gwybodaeth ieuenctid, cyngor ac arweiniad (IAG) o ansawdd da. Mae gwasanaethau IAG yn galluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r materion dan sylw a chanlyniadau'r gweithredoedd dewison nhw. Mae darpariaeth IAG o ansawdd yn grymuso pobl ifanc i gymryd rheolaeth o faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u lles. Mae'n eu dysgu i ehangu eu gorwelion, i herio mythau ac yn newid credoau a oedd ganddynt yn flaenorol. Mae natur gymhleth a newidiol darpariaeth gwybodaeth yn sicrhau bod IAG yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith ieuenctid.

Mae pobl ifanc yn arbennig angen gwasanaethau IAG, wrth iddynt wneud y trawsnewidiadau o adael yr ysgol a gadael cartref ac o bosib yn dioddef diweithdra, chwaliad perthynas neu yn ddioddefwr trosedd. Pobl ifanc yw'r grŵp poblogaeth sy'n fwyaf tebygol o gael materion cydgysylltiedig fel eu hanghenion lles cymdeithasol megis budd-daliadau, ymholiadau tai a hawliau cyfreithiol sy'n anaml yn datblygu ar wahân i rai emosiynol a phersonol fel straen, iselder, cam-drin a chamddefnyddio sylweddau.

Mae gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn ddeinamig ac yn gallu amrywio o ymyriadau bach a allai fod o fudd tymor byr i berson ifanc at roi ymwybyddiaeth o opsiynau nas ystyriwyd eisoes allai arwain at wneud penderfyniadau sy'n newid bywydau, gyda'r person ifanc yn y canol yn rheoli'r canlyniad.

Mae lleoliadau ieuenctid ac amgylcheddau ffurfiol (Ysgol, Coleg ac ati) ac anffurfiol (Clybiau Ieuenctid, Siopau Gwybodaeth, Gwaith Symudol a Datgysylltiedig) yn lleoliadau delfrydol i bobl ifanc gael mynediad at wasanaethau IAG. Dylai gwaith IAG o ansawdd fod yn gynhwysol, addysgiadol, grymusol, cyfranogol a chefnogol sy'n cwmpasu gwerthoedd ac egwyddorion dogfen 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' sydd ar fin disodli'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

### b. Diffiniadau

Daw gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyda'u set eu hun o ddiffiniadau, ac fe'u defnyddir orau ar adegau gwahanol ac mewn sefyllfaoedd gwahanol i roi'r gefnogaeth fwyaf defnyddiol, dibynadwy a phriodol i bobl ifanc. Maen nhw hefyd yn dibynnu ar ddulliau sy'n galluogi pobl ifanc i wneud defnydd da o adnoddau eraill sydd ar gael iddynt a daw'r dulliau hyn hefyd gyda'u diffiniadau eu hunain.

#### i. Gwybodaeth

Ymwna darparu gwybodaeth â chynnig ystod o ffynonellau ac adnoddau posibl, gan gynnwys taflenni, gwefannau, gwasanaethau wyneb-yn-wyneb, gwasanaethau gwybodaeth negeseuon testun, post-dafliadau, posteri ac ymgyrchoedd. Darperir y wybodaeth heb drafodaeth ynghylch y buddion neu ganlyniadau posibl sy'n gysylltiedig â'r opsiynau sydd ar gael. Gall darpariaeth gwybodaeth hefyd gynnwys darparu deunyddiau hunangymorth a meddalwedd megis CDs, DVDs neu offer ysgrifennu CV. Gall y broses hon hefyd gynnwys cyfeirio at wasanaethau arbenigol ond mae'n llai tebygol o gymryd i ystyriaeth anghenion unigol penodol iawn. Dylai darparu gwybodaeth, ble fo'n bosibl, cynnwys y cynnig o gael gafael ar gyngor a chyfarwyddyd pellach.

#### ii. Cyngor

Mae darpariaeth cyngor yn helpu pobl ifanc i ddeall y wybodaeth, gan eu galluogi i archwilio eu cam nesaf a deall canlyniadau eu penderfyniadau. Mae darparu cyngor yn debygol o arwain at atgyfeirio i wasanaethau arbenigol yn seiliedig ar well dealltwriaeth o anghenion unigol person ifanc. Mae cyngor yn fwy tebygol o gael ei gyflwyno ar sail un-i-un a all ddigwydd wyneb-yn-wyneb, drwy linellau cymorth dros y ffôn neu drwy wasanaethau ar y we.

#### iii. Arweiniad

Mae gwasanaethau cyfarwyddyd yn cynnig cymorth mwy manwl sydd wedi ei seilio ar ddealltwriaeth glir o anghenion unigolyn. Mae cyfarwyddyd yn galluogi pobl ifanc i asesu, deall ac archwilio eu hanghenion a'u dewisiadau, ac yn eu helpu i lunio cynllun gweithredu, yn seiliedig ar nodi opsiynau a nodau realistig. Mae cyfarwyddyd yn gallu cynorthwyo pobl ifanc i baratoi opsiynau amgen, a fydd yn cyfrannu at eu hanghenion datblygiadol penodol. Cyfarwyddyd sydd fwyaf tebygol o arwain at atgyfeirio i wasanaethau eiriolaeth wrth i bobl ifanc cael cynnig cefnogaeth wrth ddelio â'r asiantaethau ac unigolion sy'n ganolog i'w helpu i fodloni eu hanghenion.

#### iv. Cyfeirio

Mae cyfeirio yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r broses o ddarparu person ifanc gyda digon o wybodaeth i'w galluogi i gael mynediad at gefnogaeth neu gymorth gan sefydliad arall / asiantaeth. Dylai ddigwydd pan nad yw'r gweithiwr yn meddu ar y wybodaeth neu'r profiad i ymdrin yn llawn â mater a dylai ystyried ei wneud yn effeithiol fel arfer da gan y gweithiwr ieuenctid ac nid fel methu â chael digon o wybodaeth bersonol wrth law. Mae cyfeirio da yn dibynnu ar gael digon o

ymwybyddiaeth o pan fydd gweithiwr wedi cyrraedd terfyn y cymorth y gall ef/hi ei roi i berson ifanc ar fater penodol. Er enghraifft:

- Peidio â chael arbenigedd priodol i ymdrin yn llawn â mater y sefydlwyd sefydliad arall yn benodol i ddelio â'r mater yn fwy effeithiol.

- Llwyth Gwaith/ymrwymiadau yn golygu nad oes digon o amser a sylw ar gael i gefnogi'r person ifanc.

Gall cyfeirio cynnwys rhoi gwybodaeth am ddarparwr amgen ac egluro opsiynau a/neu gysylltu ag asiantaeth arall neu unigolyn er mwyn ceisio gwybodaeth bellach ar ran y person ifanc. Gall person ifanc angen help i gael mynediad at ddarparwr y gwasanaeth trwy wneud yr asiantaeth yn ymwybodol (ar gais y person ifanc) o'u hanghenion penodol, trwy wneud apwyntiad ar eu rhan, ac o bosibl trwy fynychu gyda nhw fel modd o gefnogi'r trosglwyddiad i'r gwasanaeth hwnnw.

Yn ddelfrydol, anogir pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad er mwyn sicrhau priodoldeb y gwasanaethau a chyngor cyfeirio. Gall gweithwyr hefyd gadw mewn cysylltiad â'r person ifanc i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar fater cysylltiedig.

### v. Atgyfeirio

Mae atgyfeiriad yn cael ei wneud pan fydd mater penodol yn digwydd / yn cael ei nodi a'i drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i sefydliad arall (Fel yn achos cyfeirio efallai y bydd angen cefnogi'r person ifanc a/neu asiantaeth gyfeirio trwy'r broses hon). Wrth wneud atgyfeiriad, mae disgwyl i weithwyr wybod y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfeirio a gwneud trefniadau cychwynnol ar gyfer y person ifanc i gyfarfod â rhywun o'r sefydliad newydd i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol ar ran a gyda chaniatâd y person ifanc. Gall hyn olygu cwblhau ffurflen gyfeirio a phasio nodiadau a gwaith papur ymlaen sy'n ymwneud â chymorth blaenorol a ddarparwyd i'r person ifanc.

Gall cyfeirio mewnol ddigwydd wrth drosglwyddo ymholiad i unigolyn neu brosiect o fewn eich sefydliad eich hun ar y sail eu bod yn gwybod mwy am y mater, bod ganddynt gymwysterau yn y maes a/neu eu bod mewn sefyllfa well i gefnogi'r person ifanc. Mae cyfeiriad yn cael ei wneud yn gyffredinol er mwyn darparu'r gwasanaeth mwyaf cynhwysfawr a phriodol i'r person ifanc.

### vi. Eiriolaeth

Mae gwaith gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn arwain at ddarparu eiriolaeth tymor byr, yn seiliedig ar faterion. Eiriolaeth yw'r broses o siarad ar ran unigolyn arall. Mae Gweithiwr sy'n gweithredu fel eiriolwr yn debygol o roi cefnogaeth ar fater penodol, megis cael gafael ar dŷ neu gyngor iechyd rhywiol neu'n dilyn achos o fwlio neu sefyllfaoedd anodd eraill. Mae eiriolaeth briodol yn dibynnu ar beidio â bod yn ymwneud yn uniongyrchol yn y mater a gweithredu yn benodol ar gais y person ifanc. Byddai'r rôl eiriolaeth fel arfer yn para hyd nes bod y mater wedi cael ei ymdrin ag ef yn unig. Dylai unrhyw fater sydd y tu allan i arbenigedd a phrofiad y gweithiwr cael ei gyfeirio at wasanaeth eiriolaeth arbenigol. Yn ystod y broses o eiriolaeth, dylid ystyried cefnogi person ifanc yn y pen draw hunan-eirioli os yn bosibl, a thrwy

hynny gynyddu hunanhyder a galluogi'r person ifanc i adennill rheolaeth dros eu hamgylchiadau.

### vii. Cwnsela

Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng arweiniad, cyngor, cefnogaeth a chynghori yw y gall pobl ifanc sydd angen cynghori fod yn teimlo gofid neu anfodlonrwydd mwy hir dymor gyda bywyd yn gyffredinol, gan gynnwys teimlo fel eu bod yn colli'u syniad o gyfeiriad a phwrpas.

Mae cynghori yn ffordd o alluogi dewis neu newid neu o leihau dryswch. Nid yw'n cynnwys rhoi cyngor neu gyfarwyddo person ifanc i weithredu mewn modd penodol. Bydd cynghori yn annog y person ifanc i archwilio eu teimladau ynglŷn â mater yn hytrach na manylion penodol y mater ei hun.

Bydd cynghori yn gyffredinol yn cynnwys sefydlu a chynnal perthynas gyda'r person ifanc dros gyfres o sesiynau, gyda'r bwriad o effeithio ar newid hir dymor. Gallai fod yn briodol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau i barhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wrth gyfeirio at gynghorwr proffesiynol i archwilio teimladau ac ymddygiad.

### viii. Hawliau a Chyfrifoldebau

Mae gan bobl ifanc yr un hawliau â dinasyddion eraill waeth beth fo'u hoedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir hiliol neu ethnig, lliw, iaith, crefydd, cred wleidyddol neu arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, os ydynt yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig neu genedlaethol, neu os oes ganddynt anableddau corfforol neu feddyliol.

**Beth yw hawl?**

Mae hyn yn rhywbeth y dylai person fod yn gallu gwneud, cael, mynegi, gwybod, cael mynediad at neu gael eu diogelu yn erbyn ar bob adeg.

**Beth yw cyfrifoldeb?**

Mae hyn yn rhywbeth y dylai person ei wneud dros berson arall, y gymdeithas, neu'r amgylchedd.

Rhan o Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Ieuenctid yw helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau a sut i'w defnyddio tra'n tynnu sylw at y ffaith, wrth gael hawliau, rhaid disgwyl a derbyn rhai cyfrifoldebau penodol.

Mae nifer o bobl ifanc yn anymwybodol o'u hawliau. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ddogfen, sy'n amlinellu hawliau pobl o dan 18 oed. Dylid a gellir defnyddio'r Llawlyfr hwn fel sail ar gyfer gweithdai a gweithgareddau sy'n esbonio'n glir i bobl ifanc am eu hawliau. Mae nifer o adnoddau gwybodaeth y gellir cael mynediad atynt i gyd-fynd â'r ddogfen yn benodol ar gyfer pobl ifanc.

Mae'n bwysig fod pobl ifanc yn deall eu hawliau. Mae Ymestyn Hawliau (2000) yn disgrifio'r Deg Hawl ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghymru a all gefnogi'r broses hon. Dylai

gweithwyr fod yn gallu darparu gwybodaeth i bobl ifanc a dylai feddu ar y wybodaeth i gyfeirio pobl ifanc yn uniongyrchol at wybodaeth bellach ar eu hawliau.

### ix. Partneriaethau a Rhwydweithio

Ni fydd gan yr holl bobl ifanc o reidrwydd mynediad awtomatig i wasanaethau fel cynghorwyr gyrfaoedd, eiriolwyr ac ati. Mae hwn yn fater o gyfle cyfartal y dylid eu cadw mewn cof wrth ddatblygu gwasanaethau i fodloni anghenion IAG pobl ifanc.

Bydd angen i weithwyr sy'n gwneud gwaith ieuenctid IAG fod yn ymwybodol o wasanaethau arbenigol sy'n datblygu partneriaethau a rhwydweithiau gyda darparwyr gwasanaeth i gyfoethogi'r ddarpariaeth IAG o fewn eu lleoliad ar gyfer pobl ifanc.

Mae cydnabod y defnydd o wasanaethau eraill gan bobl ifanc i gael mynediad i ddarpariaeth IAG yn bwysig i sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni a bod dyblygu a gwrthdaro o ran gwybodaeth yn cael eu hosgoi cymaint â phosib. Weithiau, fodd bynnag, mae person ifanc yn awyddus i wybod pa ddewisiadau eraill sydd ar gael gan nad yw'r gwasanaeth mae'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn foddhaol.

Gall cael lefel dda o wybodaeth am bartneriaid a rhwydweithiau gynyddu arfer da a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael mynediad at yr ystod ehangaf o IAG.

Cyfeiriwch at yr atodiad o ffynonellau gwybodaeth yng nghefn y llawlyfr hwn i archwilio a llenwi'r ffurflen Cysylltiadau Lleol Hanfodol a defnyddiwch hi i gael gwybodaeth am eich partneriaethau a rhwydweithiau. Anogwch bartneriaid eraill i'w lenwi hefyd.

## 2. Moeseg Gwaith Gwybodaeth Ieuenctid

Mae angen i weithwyr ieuenctid nodi dimensiynau moesegol eu gwaith, myfyrio ar faterion, gwneud penderfyniadau anodd a gallu eu cyfiawnhau o ran eu harfer eu hunain a'u proffesiynoldeb. Mae'r bennod hon yn cyffwrdd ar rai o'r dilemâu moesol y gall gweithiwr ddod ar eu traws wrth gydnabod cyfyngiadau gwybodaeth ac yn cyflwyno rhai syniadau ynghylch sut i gael gafael ar wybodaeth.

### a. Cyfyngiadau

Mae gweithwyr yn atebol am y wybodaeth a ddarperir. Mae darparu gwybodaeth anghywir i bobl ifanc yn waeth na rhoi dim gwybodaeth o gwbl. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol a chyfrifoldeb i bobl ifanc, rhieni/gwarcheidwaid a sefydliadau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn briodol i'r amgylchiadau. Gall y cyfyngiadau hyn gynnwys:

- Cylch gwaith sefydliad y gweithiwr
- Gallu'r sefydliad i ddarparu gwybodaeth
- Medrau personol a gwybodaeth y gweithiwr
- Rôl a pherthynas y gweithiwr gyda pherson ifanc

Mae yna wasanaethau arbenigol gyda gweithwyr proffesiynol hyfforddedig fel cynghorwyr, gweithwyr camddefnyddio sylweddau ac eiriolwyr sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau penodol i fynd i'r afael â phynciau a materion penodol. Rôl y gweithiwr gwybodaeth yw gwybod pryd i gyfeirio neu atgyfeirio person ifanc at wasanaeth arbenigol yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â'r materion eu hunain. Mae hyn cymaint ar gyfer diogelwch y gweithwyr ag y mae hi ar gyfer lles y person ifanc.

### b. Ffiniau

Mae ffiniau rhwng bywyd personol a phroffesiynol gweithiwr ac mae angen cael cydbwysedd rhwng perthynas gefnogol gyda pherson ifanc o fewn pellter proffesiynol priodol ond heb wahaniaethu. Beth bynnag fo'u safbwyntiau personol a safbwyntiau, rôl y gweithiwr gwybodaeth yw darparu gwybodaeth ddiduedd gyda pharch er mwyn i bobl ifanc allu gwneud eu penderfyniadau a'u dewisiadau eu hunain.

Dylid meithrin agwedd sy'n eich galluogi i gefnogi'r bobl ifanc eu hunain i ddysgu sut i wneud eu penderfyniadau moesol eu hunain a sut i gymryd camau effeithiol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd lles y person ifanc neu les pobl eraill mewn peryg neu y gallai fod mewn peryg.

Yn gyffredinol yn ymarferol dylai gweithiwr deimlo'n gyfforddus i drafod a rhoi gwybodaeth, efallai ar adegau ar bynciau ar faterion sy'n gwrth-ddweud codau moesol a chredoau personol. Gall gweithwyr gwybodaeth ieuenctid gyfrannu at hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol i bobl ifanc mewn cymdeithas yn gyffredinol drwy annog parch at wahaniaeth, amrywiaeth a herio anffafriaeth.

Fodd bynnag, os yw barn gweithiwr yn gwrthdaro â'r wybodaeth y gofynnir iddynt ddarparu, a allai fod yn fater moesol personol neu un sy'n ymwneud â chred grefyddol, ac y gallai cryfder eu hanghysur niweidio'r berthynas gefnogol gyda'r person ifanc, yna mae angen cydnabod y ffiniau hyn. Yn yr amgylchiadau hyn y peth gorau i'w wneud byddai cyfeirio'r person ifanc i gydweithiwr neu wasanaeth neu ffynhonnell arall am wybodaeth bellach.

Ni all weithwyr wneud dewisiadau dros bobl ifanc, ond gallant eu helpu i ddeall yr opsiynau sydd ar gael a goblygiadau eu hamrywiol weithrediadau.

# 3. Lleoliadau Cyflwyno a Dulliau Ymrwymo

Mae yna lawer o leoliadau darparu a dulliau ymrwymo ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuenctid. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r rhain ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r nodweddion a'r sgiliau defnyddiol sydd eu hangen ar weithiwr i ymrwymo â phobl ifanc er mwyn bod yn effeithiol ac yn archwilio'r defnydd o dechnolegau mewn gwaith gwybodaeth.

Bwriad gwaith gwybodaeth ieuenctid yw helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus drwy sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r wybodaeth sydd ei angen arnynt, pan fyddant ei angen, mewn ffyrdd y maent yn ei ddeall. Mae ei darparu yn disgyn i ddau brif gategori:

**Ymatebol:**

Ymateb i anghenion gwybodaeth y person ifanc wrth iddynt godi.

**Targedu:**

Gweithdai, gweithgareddau, rhaglenni neu ddeunyddiau i fynd i'r afael â materion gwybodaeth a phynciau penodol.

### a. Lleoliadau ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuenctid

Mae'r cyflwyno yn digwydd mewn amrywiaeth o leoliadau statudol a gwirfoddol, wyneb yn wyneb neu o bell gan weithwyr arbenigol, fel rhan o rôl arall fel gweithiwr ieuenctid mewn canolfan, gweithiwr ieuenctid ar y stryd, llyfrgell gynorthwyol, athro neu'n anuniongyrchol drwy ddarparu gwybodaeth ar-lein.

#### i. Siopau Gwybodaeth

Mae Siopau Gwybodaeth yn darparu gwasanaethau pwrpasol, ymatebol i bobl ifanc gan weithwyr gwybodaeth hyfforddedig, gan ddefnyddio adnoddau gwybodaeth sy'n cynnwys manylion am wasanaethau ieuenctid/gweithgareddau cyffredinol ac asiantaethau cymorth arbenigol ar gyfer cyfeiriadau, llyfrynnau, cyhoeddiadau, taflenni a mynediad i ffynonellau gwybodaeth ar-lein. Mae rhai darpariaethau hefyd yn darparu gwasanaethau negeseuon testun i hysbysu pobl ifanc o weithgareddau ac amserau mynediad. Fel arfer mae ystafelloedd tawel un-i-un lle gall pobl ifanc siarad yn gyfrinachol, a rhaglenni o weithgareddau wedi'u targedu sy'n cynnwys gwaith yn seiliedig ar faterion.

#### ii. Darpariaethau Gwybodaeth Symudol

Mae darpariaethau gwybodaeth symudol yn darparu’r un ystod o arbenigeddau ac adnoddau â siopau gwybodaeth ond yn teithio i wahanol leoliadau lle mae pobl ifanc yn cwrdd, gydag amserlenni penodol o ble a phryd y byddant ar gael. Mae'r gwasanaethau hyn yn hynod werthfawr mewn lleoliadau gwledig lle mae pobl ifanc wedi'u hynysu'n ddaearyddol.

### iii. Parthau Gwybodaeth

Gall parthau gwybodaeth fod mewn canolfan darpariaeth ieuenctid, ysgol neu lyfrgell, ac maen nhw'n gyffredinol yn bwyntiau neu ystafelloedd gwybodaeth penodol sy'n darparu taflenni gwybodaeth, cyhoeddiadau a mynediad i adnoddau gwybodaeth ar-lein. Mewn rhai amgylchiadau, mae gweithiwr penodol tra mewn eraill mae darparu gwybodaeth i bobl ifanc yn ffurfio rhan yn unig o rôl gweithiwr. Mewn rhai lleoliadau, nid oes parth penodol, ond mae gweithiwr gyda chyfrifoldeb dros wybodaeth ieuenctid.

Mewn lleoliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol, mae gwaith gwybodaeth a dargedir yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni o weithgareddau tra mewn lleoliadau addysgol ffurfiol, mae gwaith gwybodaeth a dargedir yn cael ei gynnwys mewn gwersi ABCh a Bagloriaeth Cymru.

### iv. Gweithwyr ieuenctid ar y stryd

Ar gyfer gweithwyr ieuenctid ar y stryd sydd yn cwrdd â phobl ifanc ble bynnag y maen nhw yn yr ardaloedd maen nhw'n byw ynddynt, gall y broses o sefydlu perthnasau fod yn araf ac yn rhwystredig. Mae dal angen iddynt fod yn ymatebol i anghenion gwybodaeth pobl ifanc. Bydd gweithwyr yn teithio gydag amrywiaeth o adnoddau ac mae'r rhain yn amrywio o lyfrynnau a thaflenni i ddyfeisiau rhyngrwyd symudol i alluogi gweithwyr i gael mynediad i wybodaeth ar-lein.

### v. Darpariaethau gwybodaeth o bell

Mae Llinellau Cymorth Gwybodaeth yn cyflogi gweithwyr arbenigol i ddarparu'r un gefnogaeth a'r adnoddau i ymateb i anghenion pobl ifanc. Mae ymholiadau gwybodaeth yn aml yn benodol iawn naill ai dros y ffôn, e-bost, neges destun neu negeseuon gwib. Yn wahanol i siopau gwybodaeth, darpariaethau symudol, parthau gwybodaeth neu waith ar y stryd lle gellir datblygu perthnasau wyneb-yn-wyneb, mae darpariaethau anghysbell yn aml yn ddienw oni bai bod angen ymyriad.

## b. Dulliau o ymrwymo

Mae gwaith gwybodaeth ieuenctid yn gofyn am un neu fwy o'r canlynol:

- Cael rhagor o wybodaeth ar gyfer y person ifanc
- Cefnogi'r person ifanc i gael mynediad at wybodaeth
- Cyfeirio neu atgyfeirio'r person ifanc at asiantaeth briodol
- Cefnogi person ifanc yn eu gwaith gydag asiantaethau eraill
- Cefnogi'r person ifanc i wneud penderfyniad gwybodus

Fel addysgwyr anffurfiol, mae gweithwyr gwybodaeth yn gallu effeithio ar a newid cyfeiriad bywydau pobl ifanc. I fod mewn swyddi breintiedig o'r fath mae nifer o sgiliau rhyngbersonol pwysig y dylai gweithwyr ieuenctid wybodaeth meddu ar neu'u datblygu:

- Sgiliau cyfathrebu a gwrando da, y gallu i feithrin perthynas effeithiol gyda phobl ifanc, bod yn bwyllog ac yn sensitif i faterion, yn ennill ymddiriedaeth a pharch pobl ifanc.

- Agwedd nad yw'n barnu, gyda'r gallu i roi eu barn eu hunain i un ochr, ymrwymiad i gyfle cyfartal a'r gallu i greu cyswllt â phobl ifanc o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau.

- Amynedd, dyfalbarhad, hunanymwybyddiaeth a hunanreolaeth.

- Brwdfrydedd a chymhelliant i ysbrydoli a chefnogi pobl ifanc i gymryd camau a chael mynediad at gyfleoedd.

- Y gallu i annog a herio pobl ifanc i feddwl am eu hymddygiad, eu goblygiadau, ac i gwestiynu eu rhagfarnau a rhagdybiaethau.

- Meddu ar ddealltwriaeth o faterion cyfredol mewn diwylliant ieuenctid.

### i. Ymrwymiad Ymatebol

Waeth beth fo'r lleoliad, mae angen i weithwyr gwybodaeth fod yn ddyfeisgar, yn ddelfrydol gyda gwybodaeth fanwl am y gymuned leol a'r gwasanaethau sydd ar gael neu le a sut i gael gafael ar wybodaeth o ansawdd. Mae eu hadnabyddiaeth ag amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth sydd ei angen arnynt yn effeithlon. Byddant yn dangos gallu i berson ifanc sy'n ennyn ymddiriedolaeth i ddatblygu perthynas waith dda.

Nid oes disgwyl i weithwyr fod yn arbenigwr ar bopeth sy'n effeithio ar bobl ifanc, ond mae angen cydnabod pan fydd angen iddynt atgyfeirio pobl ifanc i'r rhai sydd â sgiliau a gwybodaeth arbenigol, tra'n parhau i'w cefnogi.

Nid yw pob cais am wybodaeth o natur gymhleth a difrifol sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc. Gall rhai fod yn ddigon syml gyda pherson ifanc yn gofyn am gymorth i ddod o hyd i weithgaredd neu i'w helpu gyda threfniadau teithio. Ar y lefel hon o ryngweithio, mae darparu gwybodaeth gywir effeithiol yr un mor bwysig â chefnogi person ifanc â mater difrifol gan y gall helpu creu llwyfan ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol. Os nad yw gweithiwr yn gallu rhoi cymorth gyda cheisiadau syml am wybodaeth yna mae person ifanc yn llai tebygol o ymddiried iddynt gyda mater yn ddiweddarach sy'n effeithio'n fwy ar eu lles.

### ii. Ymrwymiad wedi'i dargedu

Mae nifer o adnoddau a phecynnau cymorth gwybodaeth sy'n cynorthwyo gweithwyr i ddyfeisio gweithdai wedi'u targedu a rhaglenni ar gyfer pynciau ac anghenion penodol . Os nad ydynt eisoes yn rhan o gwricwlwm neu raglen a gynlluniwyd, mae'n arfer cyffredin i gyflwyno'r mathau hyn o weithgareddau pan fydd mater penodol yn codi neu'r ailddigwydd gyda grŵp. Mae gweithgareddau gweithdy yn seiliedig ar faterion hefyd yn darparu modd amhersonol, anuniongyrchol o fynd i'r afael â phwnc neu faes anodd.

### c. Defnyddio technolegau

Gall plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio atynt yn frodorion digidol wedi tyfu i fyny gyda'r dechnoleg i gyfathrebu ar sawl lefel. Yn wahanol i unrhyw genhedlaeth arall o'u blaen, mae ganddynt ddisgwyliadau ac anghenion gwahanol o ran sut maent yn ymrwymo, sgwrsio ac yn disgwyl i wybodaeth gael ei chyflwyno. Mae ganddynt gysylltiad personol a dyfeisiau cyfathrebu megis ffonau symudol, cyfrifiaduron neu liniaduron sy'n breifat iddyn nhw ac sy'n eu darparu â mynediad uniongyrchol i'r rhyngrwyd.

#### i. Negeseuon testun

Mae darpariaethau gwybodaeth yn gynyddol yn defnyddio gwasanaethau negeseuon testun i hysbysebu cyfleoedd, amserau agor gwasanaethau ac i hyrwyddo mentrau. Gall hyn fod yn arf effeithiol lle mae person ifanc wedi rhoi eu rhif ffôn fel dull o gysylltu ag ef/hi. Fodd bynnag, am resymau diogelwch a diogelu data, mae'n ddoeth bod rhifau ffôn pobl ifanc yn cael eu storio yn yr un ffordd ag unrhyw gofnodion personol ac nid yn cael ei storio mewn dyfeisiau symudol gweithwyr unigol er mwyn gallu cael mynediad atynt ar unwaith.

#### ii. Adnoddau gwybodaeth ar-lein

Mae'r rhyngrwyd yn parhau i fod yn brif ffynhonnell o gyngor a gwybodaeth i bobl ifanc ac, yn ei dro, gweithwyr gwybodaeth, gan atgyfnerthu'r angen am ansawdd a chywirdeb. Nododd ymchwil a gynhaliwyd gan YouthNet bod pobl ifanc yn y gymdeithas heddiw yn dilysu'r wybodaeth y maent yn ei chael ar-lein gydag oedolyn y maen nhw'n ymddiried ynddo ac i'r gwrthwyneb, gan amlygu sut mae'r rhyngrwyd wedi dod yn adnodd hanfodol i bobl ifanc yn yr un modd â gweithiwr gwybodaeth ieuenctid.

Mae nifer o wefannau gwybodaeth ar-lein ar gyfer pobl ifanc yn bodoli. Mae rhai yn cynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol yn eu datblygiad parhaus megis CLIC, y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i bobl ifanc 11 - 25 mlwydd oed yng Nghymru. Dylai gweithwyr gwybodaeth ieuenctid ymgyfarwyddo eu hunain â ffynonellau addas a dibynadwy a chyfeirio pobl ifanc yn uniongyrchol at y rhain fel y bo'n briodol.

#### iii. Cyfryngau Cymdeithasol

Gyda'r rhan fwyaf o bobl ifanc gyda rhyw fath o broffil ar gyfrwng cymdeithasol megis Facebook, Bebo, Flickr, YouTube, Twitter, Myspace, MSN, Yahoo a gwyddoniadur anffurfiol fel Wikipedia, mae angen amddiffyn pobl ifanc ar-lein ac i gyfathrebu â phobl ifanc gan ddefnyddio'r cyfrwng yma. Mae gan safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ddigon o fanteision unigryw o ran rhannu gwybodaeth ac annog creadigrwydd trwy ddefnyddio dulliau aml-gyfrwng.

Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn caniatáu i ddefnyddwyr 13 mlwydd oed neu'n hŷn i sefydlu cyfrif yn cynnwys tudalen broffil, a mannau rhyngweithiol lle gall cymuned o ffrindiau a theulu adael negeseuon, lluniau a fideos. Mae safle

rhwydweithio cymdeithasol yn debyg i 'hysbysfwrdd' ac mae gan nifer o gyfleuster newyddion sy'n diweddaru'r rhwydwaith yn awtomatig o'r proffiliau.

### iv. Polisi a Chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn awr yn cael eu defnyddio gan nifer o sefydliadau gwybodaeth ieuenctid. Mae rhai yn cymryd rhan mewn rhyngweithio dwy ffordd gyda phobl ifanc drwy broffiliau sefydliadol tra bod eraill dim ond yn darparu diweddariadau yn hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau.

- Bydd gan bob sefydliad bolisi gwahanol ar ddefnydd priodol ond dyma rhai canllawiau defnyddiol:

- Dylid sefydlu cyfrifon ar gyfer y sefydliad neu brosiect ac nid ar gyfer gweithwyr unigol

- Dylid rhannu gwybodaeth y cyfrif a'r manylion mewngofnodi gyda rhai o'r gweithwyr ac ni ddylent ddefnyddio'r cyfleusterau sgwrsio neu negeseuon gwib - golyga hyn bod yna gofnod a rennir o gyfathrebu ar-lein i ddiogelu gweithwyr a phobl ifanc

- Cadwch broffiliau personol a gwaith ar wahân a pheidiwch â defnyddio proffiliau personol i gyfathrebu â phobl ifanc

- Byddwch yn ymwybodol y dylai unrhyw grwpiau yr ydych wedi ymuno â nhw, unrhyw ddewisiadau a roddir ac ati fod yn gynrychiolydd o'r sefydliad, a dylent hybu cynhwysiant a chydraddoldeb

- Os ydych cyn cyfathrebu gyda pherson ifanc, dylech fod yn gadarnhaol ac yn ddiduedd - os oes pwnc sensitif yn cael ei godi, anogwch y person ifanc i gysylltu â gweithiwr gwybodaeth dynodedig wyneb-yn-wyneb trwy ddarpariaeth swyddogol

- Rhaid cael caniatâd o bosib yn ysgrifenedig cyn defnyddio unrhyw ddelweddau neu ddeunydd fideo

### v. Awgrymiadau ynghylch diogelwch ar-lein

Dylai gweithwyr gwybodaeth wneud pobl ifanc yn ymwybodol o ddiogelwch ar-lein a'u hannog i lynu wrth y canlynol:

- Peidiwch byth â rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein

- Y peth gorau yw i gadw ffrindiau ar-lein yn rhai ar-lein yn unig, gall cyfarfod â dieithriaid fod yn beryglus iawn.

- Efallai na fydd pobl yn dweud y gwir o ran pwy ydynt ac os ydynt yn ansicr ni ddylent ychwanegu'r person fel ffrind ar-lein

- Peidiwch byth â rhannu cyfrineiriau, hyd yn oed gyda ffrindiau a chofiwch allgofnodi bob tro ar ôl defnyddio Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, ar y ffôn, cyfrifiadur, XBox / PS3 ac ati

- Byddwch yn ofalus wrth agor ffeiliau o ffynonellau anhysbys, gallent gynnwys firws neu gynnwys anaddas

- Byddwch yn ofalus am yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar-lein oherwydd mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel papurau newydd ar-lein. Mae'n well anfon negeseuon preifat at ffrindiau i ddweud pethau personol wrthynt

- Mae gan y rhan fwyaf o wefannau rhwydweithio cymdeithasol osodiadau preifatrwydd y gellir eu newid i wneud yn siŵr mai ffrindiau yn unig sy'n gweld gwybodaeth ar eich proffil. Mae'n ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â'r lleoliadau hyn er mwyn gallu cynghori pobl ifanc

- Byddwch yn ymwybodol y gellid cymryd, newid a rhannu unrhyw luniau neu fideos sy'n cael eu postio'n gyhoeddus ar-lein heb ganiatâd a hefyd sicrhewch fod ganddynt ganiatâd i lwytho'r cynnwys i'r we yn y lle cyntaf

- Cadwch at reolau ar-lein, byddwch yn gyfrifol a thrin eraill fel y byddent yn hoffi cael eu trin

- Dylech bob amser roi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth am gyswllt amhriodol gan ddefnyddio eu cysylltiadau Adrodd Camdriniaeth, ac os oes unrhyw beth yn eu poeni, siaradwch â gweithiwr gwybodaeth neu oedolion yr ydych yn ei ymddiried

## 4. Darparu IAG o dan Deg Pennawd Gwybodaeth Allweddol

Mae'r deg pennawd allweddol yn ymwneud â gweithio gyda gwybodaeth fel a ganlyn:

- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth
- Teulu a pherthnasau
- Iechyd - gan gynnwys iechyd emosiynol a meddyliol
- Tai
- Y Byd, Ewrop, y DU a Chymru
- Y Gyfraith a hawliau
- Hawliau a chyfrifoldebau
- Arian
- Chwaraeon a hamdden

O dan bob un o'r penawdau fe ddowch o hyd i drosolwg manwl o'r is-adrannau maen nhw'n eu cwmpasu, pam maen nhw'n bwysig a rhai o'r materion, cynlluniau, mentrau a deddfwriaeth y dylai gweithwyr ieuenctid fod yn ymwybodol ohonynt i wella eu harferion. Mae'r adran yma'n clymu i mewn yn arbennig o dda gyda'r atodiad o ffynonellau gwybodaeth yng nghefn y llawlyfr hwn ac yn amlinellu'r pwysigrwydd o lenwi'r ffurflen Cysylltiadau Hanfodol Lleol.

Mewn perthynas ag anghenion y bobl ifanc sy'n defnyddio eich gwasanaeth a darpariaeth, mae'n bwysig cydnabod y bydd gan bob un alluoedd, cymwyseddau, anghenion, lefelau gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau adnabod gwahanol. Felly mae angen i gyfle cyfartal fod yn elfen ganolog o sicrhau gwasanaeth cynhwysol.

### a. Addysg a hyfforddiant

Mae cyngor ar yrfaoedd a darpariaeth Anogwr Dysgu yn chwarae rôl bwysig o fewn gwaith IAG. Bydd cael cyswllt uniongyrchol rhwng eich gwasanaeth, darpariaeth a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn rhoi mynediad uniongyrchol i bobl ifanc at eu gwasanaeth. Fel arall, mae cyfeirio pobl ifanc at wasanaethau gyrfaoedd / cynghorwyr yn opsiwn arall ar gyfer partneriaeth. Gall Waith Ieuenctid IAG gynnwys darparu gwybodaeth ar gyflogaeth, hyfforddiant ac argaeledd lleoliadau addysg / cyrsiau a gall gynnwys cyfleusterau chwilio am swyddi, cymorth gyda CVs a llenwi ffurflenni, defnyddio'r ffôn, sesiynau ymarfer sgiliau cyfweliad a chyfeirio.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob plentyn a pherson ifanc dderbyn addysg ac mae ganddynt yr hawl i'w derbyn. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith yn nodi o le y dylai'r addysg ddod. Mae mannau dysgu yn amrywio ar gyfer gwahanol bobl ifanc. Er bod y mwyafrif yn derbyn addysg yn yr ysgol, mae eraill yn gadael yn gynnar ac yn mynd i'r coleg, yn dechrau prentisiaeth fodern, mae rhai dysgu o gartref a gall y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu sydd wedi cael eu tynnu o'r broses ddysgu yn yr ysgol gael mynediad at raglenni cwricwlwm amgen (neu fel mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn eu galw, rhaglenni 'priodol').

Mae gan weithwyr sy'n darparu gwasanaethau gyda phobl ifanc ddyletswydd i hyrwyddo a datblygu anghenion addysgol, corfforol, seicolegol, datblygiadol a chymdeithasol pobl ifanc.

Gall gweithwyr cefnogi pobl ifanc drwy fod yn ymwybodol o ymddygiad, neu arwyddion o'r risg posibl o roi'r gorau i addysg neu arwyddion sy'n awgrymu eu bod mewn trafferth neu os oes ganddynt agwedd negyddol tuag at ddysgu ac addysg. Ble mae'n bosib dylid mynd i'r afael â materion o'r fath gyda sensitifrwydd a thrwy ddefnyddio eich sgiliau cyfathrebu i archwilio'r mater gyda'r person ifanc a dod o hyd i ffyrdd y gallant ddelio â hyn neu geisio datrys unrhyw broblemau. Mae angen parchu diogelwch, anghenion, barn a theimladau'r bobl ifanc yn y broses hon ac maen nhw'n ganolog i unrhyw waith a wneir

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o sut i wneud cyfeiriadau a gyda phwy ddylech gysylltu, e.e. yn ymwneud ag addysg a gwasanaethau cwricwlwm amgen. Bydd gan yr holl bobl ifanc sy'n defnyddio eich gwasanaeth anghenion gwahanol ac amrywiol yn seiliedig ar IAG a dylid eu cydnabod, dod i arfer â nhw a'u parchu.

Mae rhai pobl ifanc yn cael problemau gyda llythrennedd, megis anhawster yn darllen ac yn ysgrifennu a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth. Efallai bydd angen mwy o gymorth gyda gweithgareddau megis ceisiadau am swyddi, ysgrifennu CV a chwilio am swydd.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i gael cymorth ychwanegol mewn lleoliadau ffurfiol megis ysgolion a hefyd, mewn lleoliadau anffurfiol. Sicrhewch fod pobl ifanc yn ymwybodol bod y gwasanaethau cymorth yma ar gael iddynt, trwy wneud eich hun yn ymwybodol o bartneriaid a gwasanaethau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol. Dylai pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a bod gweithwyr proffesiynol yno 'ar eu cyfer'.

Mewn perthynas ag addysg bellach, efallai y bydd rhai pobl ifanc yn ystyried mynd i'r coleg, gall gweithwyr ddarparu gwybodaeth a chyngor ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt a thrafod ffioedd dysgu a grantiau allai fod ar gael i astudio. Gall fod yn ddefnyddiol cadw prosbectysau prifysgolion i bobl ifanc cael syniad o'r gwahanol gyrsiau a phrifysgolion sydd ar gael a'r hyn sy'n ofynnol er mwyn sicrhau lle.

Mae sefyll arholiadau yn aml yn amser llawn straen i bobl ifanc mewn addysg felly efallai y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth a mynediad at yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r broses adolygu, a cheisio cyngor a chymorth pellach gan diwtoriaid neu oedolion perthnasol eraill.

### b. Cyflogaeth

Dylai gweithwyr ieuenctid fod yn gallu cyfeirio pobl ifanc at wybodaeth swydd wag, wedi'u teilwra i'ch ardal leol, trwy wasanaethau fel y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae gwefan Gyrfa Cymru yn darparu'r swyddi gwag lleol diweddaraf. Gweler adran cysylltiadau defnyddiol y canllaw hwn am ragor o wybodaeth. Os oes cyfleusterau mynediad i'r rhyngrwyd a TG ar gael, mae hefyd yn ddefnyddiol i ddarparu adnoddau megis templedi ysgrifennu CV, enghreifftiau o gwestiynau cyfweliad a chanllawiau eraill i baratoi ar gyfer gwaith.

### c. Amgylchedd

Gall gweithgareddau amgylcheddol fod yn ddull ardderchog o hybu dinasyddiaeth a chodi proffil cadarnhaol pobl ifanc yn y gymuned leol. Siaradwch â'ch gwasanaeth ieuenctid lleol a'r gymdeithas o sefydliadau gwirfoddol o ran cyfeirio pobl ifanc at brosiectau ieuenctid lleol sy'n cynnwys pobl ifanc mewn mentrau amgylcheddol. Gellir defnyddio rhaglenni achredu seiliedig ar wybodaeth megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Gwobr Dug Caeredin i wobrwyo gwirfoddoli yn y gymuned. Cyfeiriwch at wefannau'r sefydliadau ar gyfer manylion cyswllt lleol.

### ch. Teulu a Pherthnasoedd

Gall bwlio fod yn drychinebus i bobl ifanc ac yn anffodus mae'n broblem gyffredin iawn. Ymchwiliwch brosiectau lleol sy'n cefnogi dioddefwyr bwlio yn uniongyrchol, yn ogystal â gweithio gyda'r rhai sy'n bwlio. Gellir cyhoeddi dyddiaduron bwlio fel modd defnyddiol o alluogi pobl ifanc i gofnodi achosion er mwyn eu hadrodd yn effeithiol. Mae yna hefyd ddulliau ar-lein i reoli bwlio a chofnodi camdriniaeth. Dylai gweithwyr ymgyfarwyddo'u hunain â'r mathau hyn o ddewisiadau er mwyn hysbysu pobl ifanc o ffyrdd o ymdrin ag unrhyw faterion neu broblemau a all eu hwynebu. Gall eiriolwyr pobl ifanc hefyd fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth yn y sefyllfa hon, ar gais y person ifanc dan sylw. Cyfeiriwch at adran cysylltiadau defnyddiol y llawlyfr hwn am fwy o wybodaeth am wasanaethau a Llinellau Cymorth Cenedlaethol sy'n darparu cefnogaeth un i un dros y ffôn i bobl ifanc. Mae cyfryngu hefyd yn opsiwn a all gael ei wneud yn fewnol a/neu ei ddrafftio i mewn drwy ffynonellau allanol megis gwasanaethau cwynion plant lleol, ar yr amod bod y person (pobl) ifanc dan sylw yn gyfforddus gyda'r opsiwn hwn, a bod y sefyllfa heb fynd heibio'r pwynt ar gyfer y lefel hon o ymyrraeth.

Mae trais yn y cartref yn digwydd mewn rhai teuluoedd ac mae pobl ifanc sy'n gweld hyn yn eu cartrefi yn ddioddefwyr cymaint â'r rhai sy'n dioddef yn uniongyrchol. Dylai gweithwyr ieuenctid feddu ar ddealltwriaeth partneriaeth gyda'r cydlynydd trais yn y cartref lleol

### d. Iechyd

Mae hon yn thema eang ac amrywiol sy'n cynnwys materion yn ymwneud â iechyd corfforol, ffitrwydd a maeth, iechyd rhywiol, iechyd emosiynol a meddyliol, yr holl gydrannau allweddol i les pobl ifanc. Ceir gwybodaeth fwy manwl am hyn yn y Llawlyfr Methodoleg Iechyd.

#### i. Iechyd Corfforol, Ffitrwydd a Maeth

Ble fo'n bosib dylai gweithwyr cyfathrebu â, a hysbysu, pobl ifanc mewn perthynas â bwyta'n iach. Mae amrywiaeth o fentrau dan arweiniad Cynulliad Cymru i hyrwyddo bwyta'n iach a maeth a gall eich dietegydd cymunedol, Timau Iechyd Cyhoeddus a Hybu Iechyd lleol gynghori ar unrhyw hyfforddiant, arian neu adnoddau sydd ar gael i ymgymryd â gwaith gwybodaeth yn y maes hwn gyda phobl ifanc. Gellir cysylltu â'r Dietegydd Cymunedol drwy eich Bwrdd Iechyd Lleol, a gall hefyd ddarparu taflenni, adnoddau, a chefnogaeth ar gyfer darparu gwybodaeth a chyflwyno gweithgareddau.

### ii. Iechyd Rhywiol ac Atal Cenhedlu

Mae iechyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu yn rhan fawr o IAG ieuenctid ac mae'n bwysig i weithwyr gael dealltwriaeth sylfaenol o faterion y gall pobl ifanc eu cyflwyno a sut i ddelio â nhw

Bydd angen i weithwyr sy'n gwneud gwaith IAG Ieuenctid fod yn ymwybodol o wasanaethau arbenigol megis Cyngor Ieuenctid a Chlinigau Iechyd Rhywiol sy'n darparu cyngor a chefnogaeth unigol i bobl ifanc. Fodd bynnag, efallai y bydd llawer o achosion lle mae pobl ifanc yn dewis cael mynediad at y math hwn o wasanaeth yn uniongyrchol gan Weithiwr Ieuenctid. Gall gwaith IAG ieuenctid gynnwys darparu gwybodaeth am feichiogrwydd, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a dulliau atal cenhedlu, gan gynnwys atal cenhedlu brys. Bydd angen i weithwyr fod yn ymwybodol o ba fferyllfeydd sy’n rhoi Atal Cenhedlu Brys yn rhad ac am ddim.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o sut i wneud atgyfeiriadau a phwy y dylech gysylltu â nhw ynghylch Iechyd Rhywiol ac Atal Cenhedlu.

Gall gweithwyr sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol roi condomau, taflenni ac adnoddau cysylltiedig eraill a bydd angen iddynt weithio yn unol â pholisi / protocol / canllawiau eu sir eu hunain. Bydd angen cael partneriaeth gyda’r Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwyr hyfforddiant er mwyn canfod a ydych yn defnyddio cerdyn C neu gynllun monitro dosbarthiad condomau arall.

Bydd angen i weithwyr fod â dealltwriaeth dda o Ddeddf Iechyd Rhywiol 2003 a'r gyfraith sy'n ymwneud â chaniatâd, oedran, canllawiau Fraser (Yn ymwneud â lefelau cymhwysedd) ac amddiffyn plant. Yn ogystal, bydd angen i weithwyr weithio yn unol â'u polisi cyfrinachedd.

### iii. Iechyd Emosiynol

Mae’r gallu i ymdopi â sefyllfaoedd heriol yn dibynnu ar iechyd emosiynol a lles cryf person ifanc. Mae llawer o bobl ifanc angen cefnogaeth arbenigol mewn meysydd fel rheoli dicter, adeiladu hyder, hunan-barch a chynnal perthynas iach. Ymchwiliwch wasanaethau cymorth ieuenctid arbenigol lleol yn eich ardal er mwyn gyfeirio pobl ifanc yn effeithiol at y gwasanaeth gorau ar gyfer eu hanghenion penodol. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o, a gweithio ochr yn ochr â, eich gwasanaeth cwnsela lleol i bobl ifanc leol er mwyn gwneud cyfeiriadau priodol ar gyfer cymorth i weithio drwy faterion emosiynol sy'n disgyn y tu hwnt i ffiniau eich gwaith ac arbenigedd.

### iv. Iechyd Meddwl

Os bydd person ifanc yn arddangos arwyddion o neu’n datgelu mater iechyd meddwl, bydd bod yn ymwybodol o wasanaethau cefnogi lleol yn helpu i wneud cyfeiriadau ac atgyfeiriadau priodol at wasanaethau arbenigol. Gall cael gwybodaeth o ffynonellau gwybodaeth fod yn fuddiol i gefnogi'r person ifanc. Os nad yw amod wedi cael diagnosis meddygol, dylid cynghori person ifanc i wneud apwyntiad gyda'u meddyg teulu. Gall meddygon teulu yn aml gyfeirio at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) na ellir cael mynediad uniongyrchol atynt gan

weithwyr ieuenctid. Gall y gwasanaethau arbenigol sy'n darparu cymorth ar gyfer rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl fod ar ffurf gweithwyr unigol a galw heibio cymdeithasol, yn aml wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer pobl ifanc.

**dd. Tai**

**i. Digartrefedd**

Dylai ddarparu IAG i berson ifanc sy'n ddigartref fod yn rhywbeth y mae gweithwyr wedi cael eu paratoi ar gyfer, yn enwedig gan fod hi'n bosib mai chi / eich gwasanaeth fydd y pwynt cyswllt cyntaf a / neu 'r unig wasanaeth y tu allan i oriau wyneb yn wyneb / gwasanaeth cefnogol sydd ar gael i berson ifanc yn ystod eu hamser o angen. Gwnewch nodyn o gyfnodau y tu allan i oriau eich gwasanaeth digartrefedd lleol a Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ddyletswydd a chadwch y wybodaeth yma wrth law. Mae Dyfarniad Southwark wedi egluro'r ffaith ble mae person 16 neu 17 mlwydd oed yn ddigartref ac yn mynd at awdurdod lleol a'u bod yn cael eu hasesu fel rhai sydd angen llety, bydd y mwyafrif helaeth yn dod yn 'plant sy'n derbyn gofal' ac yn gymwys ar gyfer y cymorth sy'n rhan o hyn. Felly, ar gyfer pobl ifanc sydd yn y categori oedran hwn, gwasanaethau cymdeithasol dylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf yn hytrach na'r adran ddigartrefedd.

**ii. Byw'n Annibynnol**

Mae llawer o bobl ifanc angen cefnogaeth gyda'r pontio o fyw'n annibynnol a all olygu gwybod ble i gael dodrefn rhad neu am ddim a nwyddau gwyn, sut i reoli biliau cartref, sut i gael cymorth ariannol ar gyfer yr hanfodion o sefydlu cartref sylfaenol. Gall llawer o brosiectau ieuenctid a gweithwyr cymorth ôl-ofal ddarparu IAG gyda'r materion hyn. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gallu darparu mynediad at grantiau a benthyciadau os yn gymwys ar gyfer y math hwn o gymorth ac yn gallu hwyluso'r broses o wneud cais am fudd-dal tai a budd-dal treth gyngor.

**e. Y Byd, Ewrop, y DU a Chymru**

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) yn uchel ar yr agenda ieuenctid ac yn rhoi pwyslais cryf ar waith ieuenctid byd-eang. I fynd i'r afael â hyn drwy IAG ieuenctid, gellir cael mynediad at amrywiol sefydliadau, ffynonellau ac adnoddau gwahanol sy'n manylu ar ystod o gyfleoedd fel cyfnewid ieuenctid a theithio, ceisiadau am basportau a theithebau a chyfleoedd gwirfoddoli rhyngwladol.

Yn nes at adref, mae'n ddefnyddiol gwybod sut i gael gafael ar wybodaeth teithio leol, megis amserlenni bysiau a threnau a phrisiau tocynnau.

## f. Y Gyfraith a Hawliau

### i. Hawliau a Chyfrifoldebau

Cafodd y rhain eu disgrifio a'u diffinio ar dudalen 8

Yn ogystal, dylai pobl ifanc gael gwybod bod ganddynt yr hawl i ddweud na ond mae yna ganlyniadau i weithredoedd ac ymddygiad bob amser. Er enghraifft, gall dweud na i wneud gwaith cartref arwain at gosbau megis gorfod aros ar ôl ysgol, gwaith cartref ychwanegol, methu aseiniadau ac ati. Er bod gan bobl ifanc yr hawl i wneud penderfyniadau am eu dyfodol eu hunain, dylai IAG weithredu mewn modd sy'n eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus, dewisiadau ac ystyried canlyniadau posibl y dewisiadau a wnânt.

Dylid cyfleu negeseuon pwysig megis: i gael eich parchu ac i gael pobl i wrando arnoch mae angen i chi barchu eraill a gwrando arnynt.

Mae llawer o bobl ifanc ddim yn ymwybodol o'u hawliau. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn amlinellu hawliau pobl o dan 18 oed. Gellir a dylid defnyddio'r ddogfen fel sail ar gyfer gweithdai a gweithgareddau sy'n rhoi gwybod yn glir i bobl ifanc am eu hawliau. Mae adnoddau gwybodaeth y gellir cael mynediad atynt i gyd-fynd â'r ddogfen yn benodol ar gyfer pobl ifanc.

Mae'n bwysig i bobl ifanc ddeall eu hawliau. Gall Ymestyn Hawliau a'r Deg Hawl ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru gefnogi'r broses hon. Dylai gweithwyr fod yn gallu darparu gwybodaeth i bobl ifanc am hyn a dylai fod ganddynt y wybodaeth i gyfeirio pobl ifanc yn uniongyrchol at wybodaeth bellach mewn perthynas â'r deg maes.

Mae hefyd yn bwysig i godi ymwybyddiaeth o sut gall y gyfraith fod yn berthnasol iddynt fel pobl ifanc ac o ganlyniad i gamau penodol. Gall themâu cyffredin ar gyfer archwilio materion cyfreithiol gyda phobl ifanc gynnwys y canlynol:

### ii. Ar ba Oedran Gaf i...?

Mae llawer o ddeddfau yn dibynnu ar oedran megis y gallu i brynu alcohol a sigaréts yn gyfreithiol, yr oedran y gellir rhoi caniatâd yn ôl y gyfraith i gynnal perthynas rywiol a chyfraith cyflogaeth. Mae'r pynciau hyn yn berthnasol i bobl ifanc oherwydd mae'r dilyniant a'r pontio i fod yn oedolyn yn gofyn am ddealltwriaeth am gyfreithlondeb eu gweithredoedd eu hunain a'r bobl o'u cwmpas. Mae meddu ar wybodaeth gadarn o gyfreithiau sy'n ddibynnol ar oedran a bod yn ymwybodol o ble i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am faterion o'r fath yn allweddol i ddiogelu pobl ifanc.

### iii. Dosbarthiadau Cyffuriau a Goblygiadau Cyfreithiol

Mae'r gyfraith yn newid yn aml ac felly mae'n hanfodol bod y wybodaeth a ddarperir yn gyfredol. Mae gwefannau fel www.talktofrank.com yn ffynonellau defnyddiol o wybodaeth, i gyfeirio pobl ifanc at ac fel adnodd ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid gan fod y wybodaeth yn cael ei diweddaru i ymateb yn syth i newidiadau yn y gyfraith.

## ff. Arian

### i. Budd-daliadau

Mae gwybodaeth am fudd-daliadau yn faes cymhleth, ac mae'n amodol ar amgylchiadau pob unigolyn. Gall gwefan y Ganolfan Byd Gwaith a Llinellau Cymorth cysylltiedig ddarparu pobl ifanc gyda gwybodaeth gywir a chyfredol am eu hawliau.

### ii. Cyllido

Mae'r gallu i greu a chadw at gyllideb benodedig, cyllideb gyfyngedig yn aml yn sgil bywyd allweddol ac fel unrhyw sgil rhaid ei ymarfer er mwyn gallu ei wneud yn iawn. Gall waith IAG gynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc ymarfer cyllidebu, wrth archwilio sgiliau byw'n annibynnol, megis rheoli biliau'r cartref a siopa bwyd. Gall gweithwyr gefnogi pobl ifanc i flaenoriaethu incwm, osgoi dyledion na ellir eu rheoli a chyllidebu'n llwyddiannus neu gynilo ar gyfer eitemau nad ydynt yn hanfodol.

### iii. Cyfrifon Banc

Gall rheoli cyfrif banc gydag opsiynau cynilo a benthyca cysylltiedig fod yn dir peryglus ar gyfer pobl ifanc sy'n profi hyn am y tro cyntaf. Dylai pobl ifanc gael eu cefnogi i archwilio eu hopsiynau cyn ymrwymo i sefydliad neu fath penodol o gyfrif, er mwyn dod o hyd i un sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Rhowch y grym i bobl ifanc sylweddoli mai nhw yw'r cwsmeriaid ac felly dylent ddisgwyl y gwasanaeth gorau sydd ar gael iddynt.

### iv. Dyled

Mae llawer o bobl ifanc, yn enwedig y rhai rhwng 18 a 25 oed yn gymwys i gael benthyciadau, cardiau credyd a chytundebau credyd, a gallant chwilio eu hunain mewn sefyllfa o ddyled, gan deimlo hefyd bod lefel y ddyled allan o'u rheolaeth. Yn ogystal â darparu IAG ar ffyrdd o atal mynd i mewn i ddyled, drwy ddarparu cyngor ar gyllidebu realistig, rheoli arian, ac IAG ar reoli dyledion, gellir helpu pobl ifanc i weld y tu hwnt i'w sefyllfa bresennol i ddyfodol mwy positif, lle maent yn gallu adennill rheolaeth ar eu sefyllfa ariannol. Gall cyfeirio at wasanaethau arbenigol megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth rhoi amrywiaeth o opsiynau i bobl ifanc nad ydynt wedi eu harchwilio yn flaenorol.

Gellir cyfeirio myfyrwyr sy'n cael anawsterau ariannol a / neu sydd mewn dyled at y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn eu man astudio perthnasol am gymorth arbenigol i ymdopi ag anhawster ariannol, tra mewn addysg bellach neu uwch.

### v. Menter Ieuenctid

Mae'n bwysig peidio ag anghofio y bydd pobl ifanc eisiau IAG ar sut i arbed, rheoli ac ad-dalu arian, ond hefyd ar sut i wneud arian! Cefnogwch entrepreneuriaid ifanc drwy eu cyfeirio at gynlluniau a sefydliadau sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i ddatblygu busnesau bach, sefydliadau menter ieuenctid a chwmnïau cydweithredol nid er elw.

### g. Chwaraeon a Hamdden

Mae'n rhan o rôl gweithwyr i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i weithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd, lles a mwynhad personol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth leol ynghylch cyfleoedd i gael mynediad at ystod eang o weithgareddau clybiau a chymdeithasau chwaraeon, hamdden ac awyr agored. Y cysylltiadau allweddol yn eich ardal chi byddai eich Swyddog Datblygu Chwaraeon lleol, Gweithiwr Cwricwlwm Gwasanaeth Ieuenctid a Chymdeithas Lleol Sefydliadau Gwirfoddol neu Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) a bydd gan bob un o’r rhain rifau ffôn a chysylltiadau pobl sydd wedi cofrestru gyda nhw.

## 5. Datblygiad Personol a Phroffesiynol

Yn ogystal ag atgyfnerthu'r broses hanfodol o oruchwylio staff mae'r adran hon hefyd yn cynnig enghreifftiau o gyrsiau hyfforddi eraill sydd ar gael yn seiliedig ar Waith Gwybodaeth Ieuenctid yn unig. Mae gwaith gwybodaeth ieuenctid yn sgil penodol ac yn rhan annatod o'r holl waith gyda phlant a phobl ifanc beth bynnag fo'r lleoliad. Mae angen i weithwyr a rheolwyr ystyried o ddifrif ymgymryd neu ddarparu hyfforddiant atodol ychwanegol fel rhan o'r gwaith gwybodaeth. Sonnir am hyfforddiant generig a'r Llwybr Hyfforddiant Cydlynol yn y Llawlyfr Methodoleg Hyfforddi.

Pwrpas datblygiad personol a phroffesiynol yw cyfrannu at weithlu sydd yn fedrus, yn wybodus, yn hyfforddedig ac yn addas at y diben o gyflawni gweledigaeth eu blaenoriaethau strategol perthnasol, gan annog myfyrio, adnabod angen, a ffyrdd o ddatblygu.

Gan fod gwaith IAG yn rhan annatod o rôl y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc, mae llawer o'r sgiliau a'r priodoleddau sy'n ofynnol i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn hanfodol i gynnal arfer da. Ystyrir y sgiliau a'r priodoleddau a restrir isod fel y rhai mwyaf ffafriol i ddarparu gwasanaethau IAG o ansawdd.

**Sgiliau**

- Ddim yn feirniadol
- Gwrandäwr da
- Dangos empathi

**Priodoleddau**

- Gwybodaeth dda o wasanaethau cymorth arbenigol lleol a chenedlaethol.
- Gwybodaeth dda a'r gallu i ddefnyddio adnoddau ar y we.
- Dealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant a dealltwriaeth o bryd i ddefnyddio'r gweithdrefnau hynny.
- Dealltwriaeth glir o ddiffiniad termau o ran darparu gwasanaeth IAG.
- Dealltwriaeth glir o arferion gweithio moesegol.
- Dealltwriaeth glir o gyfrinachedd a'r gallu i weithio yn unol â chanllawiau cyfrinachedd.
- Y gallu i adnabod eu cyfyngiadau eu hunain, myfyrio ar eu hymarfer eu hun a nodi eu hanghenion hyfforddiant a datblygu eu hunain.

## a. Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn cyfeirio at broses fyfyrio yn unol â hyfforddiant, cyrsiau, gweithdai, seminarau, astudio a / neu ymchwil a fydd yn cyfrannu at wella datblygiad proffesiynol gweithiwr. Mae'r llwybr cydlynol ar gyfer gweithwyr (Rhoi'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ymarferol iddynt yn unol â'u rôl) yn darparu sail gadarn ar gyfer sgiliau hanfodol y gellir eu hategu gyda hyfforddiant arbenigol yn canolbwyntio ar feysydd penodol o waith megis IAG.

Mae'n faes sy'n datblygu'n gyson ac felly mae'n bwysig diweddaru gwybodaeth a dealltwriaeth i gwrdd ag anghenion pobl ifanc yn briodol.

## b. Hyfforddiant IAG Argymelledig

Mae mynediad i gyrsiau hyfforddiant penodol sy'n benodol i waith gwybodaeth ieuenctid yn gallu amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn dibynnu ar y ffactorau canlynol:

- 'Nodau' neu flaenoriaethau a adnabuwyd ar gyfer dyrannu cyllidebau hyfforddi.
- Argaeledd darparwyr hyfforddiant lleol sy'n ddarparwyr cofrestredig o gyrsiau penodol.
- Dyraniad amser ac anogaeth cyflogwr i ddilyn cyrsiau, sy'n cyfrannu at DPP.

Isod ceir restr yn awgrymu cyrsiau sy'n darparu hyfforddiant atodol ychwanegol wrth ymgymryd â gwaith gwybodaeth ieuenctid:

Teitl y Cwrs:
**Gwaith Ieuenctid – Gwaith Gwybodaeth Sylfaen gyda Phobl Ifanc yng Nghymru**

Darparwr yr Hyfforddiant a'r Lefel
Agored Cymru Lefel 1

Mae'r cwrs hyfforddi cyflwyniadol yn ddefnyddiol ar gyfer yr holl weithwyr gan fod gwaith gwybodaeth ieuenctid yn rhan hanfodol o bob lleoliad a maes gwaith ieuenctid. Efallai y bydd y cwrs hefyd yn addas ar gyfer y rhai sydd â chylch gwaith gwybodaeth ieuenctid penodol ond sy'n newydd i waith IAG. Yr unedau dan sylw yw: adnabod y term gwaith gwybodaeth, deall a bod yn ymwybodol o rôl y gweithiwr gwybodaeth ieuenctid, cael gafael ar wybodaeth berthnasol a chywir ac adnabod sgiliau a rhinweddau personol.

Teitl y Cwrs:
**Cyflwyno Gwybodaeth i Bobl Ifanc**

Darparwr yr Hyfforddiant a'r Lefel
Agored Cymru Lefel 2

Gallai’r cwrs hwn fod yn addas ar gyfer gweithwyr sydd â chylch gwaith gwybodaeth ieuenctid benodol, sydd â rhywfaint o brofiad o ddarparu IAG ieuenctid ond sydd efallai’n cael eu cyflogi ar sail ran-amser.

Teitl y Cwrs:
**Cyflwyno Gwybodaeth i Bobl Ifanc**

Corff Dyfarnu a Lefel
Agored Cymru Lefel 3

Gallai’r cwrs hwn fod yn addas ar gyfer gweithwyr sydd â chylch gwaith llawn amser ar gyfer darparu gwybodaeth ieuenctid, cyngor ac arweiniad. Mae'r unedau canlynol yn cael eu cynnwys: dangos dealltwriaeth feirniadol o bwrpas a rôl gwybodaeth ieuenctid, edrych yn feirniadol ar arferion gwaith effeithiol a moesegol, dangos dealltwriaeth o gyflwyno gwybodaeth ieuenctid, dangos dealltwriaeth o sefydliadau, strwythurau ac arferion, myfyrio'n feirniadol ar ddatblygiad proffesiynol unigol.

Teitl y Cwrs:
**Cyngor a Chyfarwyddyd**

Corff Dyfarnu a Lefel
NVQ Lefel 4

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at ymarferwyr profiadol gyda chyfrifoldebau rheoli neu hyfforddiant, yn enwedig o fewn meysydd arwain ac eirioli ffurfiol. Mae'r unedau canlynol yn cael eu cynnwys: datblygu cysylltiadau gyda chleientiaid cyngor a chyfarwyddyd, rheoli llwyth achosion personol, gwerthuso a datblygu eu cyfraniad eu hunain i’r gwasanaeth, gweithredu o fewn rhwydweithiau.

Gallai cyrsiau hyfforddiant gwybodaeth ieuenctid eraill fod ar gael yn eich ardal, siaradwch â'r person yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu, er mwyn archwilio eich dewisiadau.

**Hyfforddiant Atodol Penodol ar Bynciau**

Siaradwch â Swyddog Datblygu Staff eich Gwasanaeth Ieuenctid lleol i gael gwybodaeth am sut i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant ychwanegol sy’n helpu i ddatblygu sgiliau mewn meysydd penodol. Mae ystod eang o sefydliadau arbenigol yn darparu hyfforddiant, sydd ar gael i weithwyr.

### c. Goruchwyliaeth

Sonnir am oruchwyliaeth yn fanwl yn y Llawlyfr Methodoleg Hyfforddiant sydd hefyd yn cynnwys ffurflen ar gyfer cofnodion goruchwylio a hyfforddiant (DPP) ac adolygiadau gwaith blynyddol

Dylai gwasanaethau o ansawdd sy'n seiliedig ar ieuenctid ddarparu goruchwyliaeth staff rheolaidd ar gyfer pob aelod o staff llawn amser a rhan amser. Mae hyn yn cael ei gynnal naill ai ar sail unigol neu mewn grŵp.

## 6. Rheoli Ansawdd

Mae angen i'r holl sefydliadau a gwasanaethau i bobl ifanc sicrhau ansawdd o ran strwythur, monitro a rheoleiddio. Mae'r adran hon yn rhoi cipolwg i mewn i'r offer i greu gwasanaeth gwybodaeth yn gyfrifol ac yn atebol. Mae'n ymdrin â phedwar prif faes:

- Safonau ansawdd
- Dibynadwyedd ffynonellau
- Cofnodi canlyniadau a ymyriadau
- Gwerthuso Canlyniadau

Ar gyfer pob un o'r penawdau hyn, mae dadansoddiad manwl a fydd yn arbennig o ddefnyddiol i reolwyr sydd am greu gwasanaeth gwybodaeth briodol sy'n gweddu orau gofynion y bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Ar ddiwedd yr adran, mae templedi y gellir eu defnyddio i ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd. Bydd gweithwyr wyneb yn wyneb hefyd yn elwa o'r adran hon drwy ddod i ddeall y safonau y dylen nhw a'u sefydliad fod yn gweithio tuag atynt.

### a. Safonau Ansawdd

i. Gosod y Safon

Wrth weithio gyda Phobl Ifanc rydym yn gweithredu yn gyson fel darparwyr gwybodaeth. Felly, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod rheoli perfformiad a safonau uchel wrth wraidd darpariaeth, datblygiad a chyflwyniad gwybodaeth y ganolfan. Mewn perthynas ag arfer da a datblygu gwasanaeth o ansawdd, mae yna feysydd allweddol y dylid eu hystyried:

ii. Sicrhau Ansawdd

Yn ymwneud â gwella perfformiad yn barhaus. Mae'r broses hon yn sicrhau bod gwasanaeth yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion newidiol defnyddwyr y gwasanaeth ac i ddatblygiadau allanol. Mae hefyd yn amlinellu'r safonau isafswm y mae angen eu cyflawni wrth ddarparu a datblygu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion y grŵp targed. Nid yw hon yn broses sy'n cael ei gwblhau ond mae'n rhan o system gyson a pharhaus, sy'n cynnwys staff, partneriaid ac yn bwysicaf oll defnyddwyr.

iii. Hunanasesu

Mae hwn yn offeryn i ddarparwyr gwasanaethau werthuso, monitro a rheoli ansawdd eu darpariaeth fewnol o ran cyflawni ac adborth. Mae'n broses drwyadl a pharhaus sy'n cynnwys datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hon yn broses fyfyriol sy'n cael ei wneud gan staff a gweithwyr proffesiynol i nodi eu hanghenion datblygiadol.

iv. Hunanasesiad Manwl

Unwaith i chi wneud yr hunanasesiad cychwynnol a'ch bod wedi adnabod a blaenoriaethu meysydd ansawdd, dylid gwneud hunanasesiad mwy manwl yn erbyn pob safon, ac adnabod a gweithio tuag at beth sydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau.

v. Cyfrifoldeb dros y Broses Sicrhau Ansawdd

Mae gan bawb sydd yn rhan o ddatblygu a chyflwyno gwasanaeth gwybodaeth ran i'w chwarae wrth wella'i ansawdd. Yn y pen draw dylai hwn ddod yn rhan barhaus o'i diwylliant, yn arwain at ganlyniadau mesuradwy dros amser sy'n hysbysu ac sy'n amodol ar fonitro a gwerthuso.

Sail Gyd-destunol a Strategol

Wrth ddatblygu safonau ansawdd ar gyfer Gwybodaeth Ieuenctid mae datblygiadau polisi a strategaeth allweddol y dylid eu hystyried ac y dylai hysbysu'r broses:

- Siarter Gwybodaeth Ieuenctid Ewrop (2004)
- Safonau Teuluoedd yn Gyntaf (2010)
- Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol (2003)
- Safonau Cyfranogiad (2007)

Yn allweddol i'r system yma hefyd mae datblygiadau strategol a pholisi, megis:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)
- Safonau Galwedigaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) (Ymysg eraill yn ymwneud â'ch galwedigaeth benodol)
- Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru
- Deddf Gofal Plant 2006
- Deddf Diogelu Data
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru
- Siarter Cyfranogiad

Daw'r angen am broses ansawdd sy'n ymgorffori monitro a gwerthuso i'r amlwg yn unol â gosod a chynnal safonau uchel yng nghyflwyniad gwasanaeth; sydd yn ei dro yn gallu cael ei datblygu fel esiampl o arfer gorau.

Mae'r canlynol yn allweddol fel rhan o hysbysu'r broses hon:

- Staff
- Partneriaid
- Rhwydweithiau Proffesiynol e.e. Rhwydwaith Gweithwyr Gwybodaeth Ieuenctid Cymru
- Gwasanaethau Gwybodaeth Cenedlaethol a Lleol (Gweler Atodiad 3 am Gyfeirlyfr Gwasanaethau)

vi. Esiamplau o ddatblygu Safonau Ansawdd

*Wrth ddatblygu safonau ansawdd ar gyfer cyflwyno Gwasanaethau Gwybodaeth mae nifer o feysydd allweddol sydd angen eu hystyried (Gweler isod, gan gynnwys esiamplau o safonau posib):*

***Y gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus***

- Bydd y staff yn gweithredu mewn modd cyfeillgar, diduedd, agored a heb fod yn feirniadol

- Bydd yr holl staff sy'n darparu gwybodaeth wedi derbyn hyfforddiant priodol ac yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd gan yr holl staff gwybodaeth ddigonol o Bolisïau a Gweithdrefnau ynghyd â llwybrau a mecanweithiau cyfeirio

- Bydd yr holl staff yn deall yn glir eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth o fewn y rôl

**Darparu gwybodaeth**

- Bydd y gwasanaeth yn ceisio sicrhau cydraddoldeb mynediad at wybodaeth, ar gyfer pob person ifanc 11-25 mlwydd oed, beth bynnag fo'u sefyllfa, oedran, tarddiad, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, iaith, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu gategori cymdeithasol. Mewn perthynas â grwpiau ac unigolion anodd eu cyrraedd ac ymylol, rhoddir ystyriaeth o ran sut i fodloni'u hanghenion penodol

- Bydd y wybodaeth sydd ar gael yn seiliedig ar ofynion pobl ifanc a'u hanghenion canfyddiedig.

- Darperir gwybodaeth mewn modd proffesiynol gan staff wedi'u hyfforddi at y diben hwn y'u harweinir gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc

- Mae'r wybodaeth y'i darperir yn gyflawn, yn gyfoes, yn gywir, wedi'i wirio, yn ymarferol ac yn hawdd ei defnyddio

- Mae prosesau yn eu lle i sicrhau gwrthrychedd y wybodaeth a chyngor y'u darperir trwy wirio'r ffynonellau y'u defnyddir

- Bydd y wybodaeth y'i darperir i ddefnyddwyr yn annibynnol a heb unrhyw ddylanwad crefyddol, gwleidyddol, ideolegol neu fasnachol

- Pan mae pobl ifanc yn rhan o gynhyrchu'r wybodaeth, cyfrifoldeb y sefydliad / gwasanaeth yw sicrhau ansawdd y cynnwys terfynol.

- Bydd gwasanaethau yn darparu awyrgylch diogel i ddefnyddwyr deimlo'n gyfforddus i gyfathrebu'u hanghenion

- Mae Gwybodaeth Ieuenctid yn parchu a diogelu preifatrwydd y defnyddwyr, gydag ystyriaeth am anghenion diogelwch allweddol.

- Mae gwybodaeth, ynghyd â llwybrau atgyfeirio, cyfeirio a throsglwyddiad uniongyrchol, yn cael eu rheoli'n effeithiol gan gynnwys sicrhau ansawdd

vii. Cynnwys Defnyddwyr a'u Bodlonrwydd

- Caiff pob defnyddiwr ei barchu fel unigolyn a bydd yr ymateb i bob cwestiwn yn cael ei bersonoli. Bydd hwn yn cael ei wneud mewn modd sy'n grymuso defnyddwyr, yn eu hybu i ddefnyddio'i ymreolaeth, ac yn datblygu'u gallu i ddadansoddi a defnyddio gwybodaeth

- Rhoddir gwybodaeth mewn modd sy'n parchu preifatrwydd y defnyddwyr a'u hawl i beidio â datgelu eu hunaniaeth

- Bydd annog defnyddwyr i roi adborth yn rhan integredig o'r datblygiad parhaus. Dylai'r broses adborth fod yn gyflym ac yn syml i'w gwblhau a'i deall. Yna rhaid ei werthuso a'i defnyddio i addasu'r gwasanaeth. Dylid gwneud defnyddwyr yn ymwybodol o sut mae eu hadborth wedi effeithio ar y gwasanaethau

- Mae'r gwasanaeth yn hawdd i ddefnyddwyr gael ato

- Mae gan y gwasanaeth broses gwyno sy'n hawdd ei defnyddio ac sy'n cael ei reoli a'i roi ar waith yn effeithiol

- Mae pob ymholiad yn derbyn ymateb, ac mae staff yn adnabod cyfleoedd i wella

- Mae defnyddwyr yn rhan o ddatblygu'r gwasanaeth, ac mae'n ymateb i'w hanghenion canfyddiedig

viii. Monitro a gwerthuso

- Dylai'r gwerthuso a monitro fod yn broses barhaus sy'n hysbysu anghenion a datblygiadau'r gwasanaeth

- Caiff y gwasanaeth ei fonitro, ei hadolygu a'i werthuso yn unol â gweithrediadau y'u cymerir i wella'r gwasanaeth i fodloni anghenion defnyddwyr.

**b. Dibynadwyedd ffynonellau**

**i. System Sicrhau Ansawdd: Dulliau a Phrosesau**

Dylai'r holl ffynonellau y'u defnyddir i ddarparu gwybodaeth fod yn ddarostyngedig i'r broses sicrhau ansawdd y'i hamlinellir isod. Wrth sicrhau bod ffynonellau'n ddilys mae nifer o bethau y dylid eu gwirio:

- Sicrhewch fod ffynhonnell i'r wybodaeth, er mwyn gallu defnyddio'r ffynhonnell fel pwynt cyswllt.
- Gwiriwch ddyddiad y cyhoeddiad a/neu unrhyw ddiweddariadau, a dilynwch hyn i fyny er mwyn sicrhau eich bod yn darparu gwybodaeth gyfoes
- Cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth Lleol a Chenedlaethol am unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol oherwydd mae ganddynt gronfeydd data sy'n cynnwys sefydliadau a gwasanaethau amrywiol (Gweler y Cyfeirlyfr Gwasanaethau Gwybodaeth ar ddiwedd y ddogfen hon)
- Pan yn gwneud atgyfeiriad sicrhewch eich bod yn cysylltu â sefydliad i drafod eu dulliau gweithredu a nodwch enw cyswllt ar gyfer y dyfodol. Dylech hefyd ymgyfarwyddo'ch hun gyda'r broses atgyfeirio ac unrhyw staff, gwaith papur a gweithdrefnau perthnasol
- Pan yn cael gafael ar wybodaeth o unrhyw fath, gwiriwch y ddolen neu'r prif gyswllt cyn ei roi i berson ifanc, er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.
- Pan yn cyfeirio, atgyfeirio neu ddarparu gwybodaeth ar wasanaeth, mae'n bwysig ac yn arfer da i wybod bod gan y gwasanaeth y polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle, y gallu a'r arbenigedd i ymdrin ag anghenion y person ifanc, staff proffesiynol (cyflogedig a di-dâl) sydd wedi cael gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'i bod yn ffynhonnell ddibynadwy i'w defnyddio.

**ii. Asesiad Allanol**

Mae amrywiaeth o gyrff allanol gallai fod yn rhan o werthuso'ch gwasanaeth, a rhoi adborth i chi y gallai hysbysu datblygiadau yn ymwneud ag ansawdd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Estyn – cysylltwch â http://www.estyn.gov.uk/home.asp
- Y Grŵp Llywio ar Wybodaeth Cenedlaethol a Safonau Ansawdd a'r Arolygiaeth Gwybodaeth Ieuenctid (Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd) cysylltwch â Claire@cliconline.org.uk
- Yr Arolygiaeth Cyfranogiad Ieuenctid, gellir cysylltu â nhw trwy http://www.savethechildren.org.uk (Gweler y Cyfeirlyfr Gwasanaethau am ragor o wybodaeth).

### iii. Dilysu gwybodaeth

Mae angen sefydlu proses fewnol yn y sefydliad sy’n cyflwyno anghenion IAG er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a deunydd y’u darperir gan sefydliadau a gwasanaethau yn berthnasol, yn gyfredol, yn cael ei adolygu’n rheolaidd a’u monitro.

### iv. Cynnwys Pobl Ifanc

Mae ymrwymiad cynyddol mewn polisi llywodraethol i gynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio a datblygu polisïau a gwasanaethau. Noda Lywodraeth Cynulliad Cymru:

"Mae gan holl bobl ifanc Cymru’r hawl i ymgynghori, i gymryd rhan mewn penderfyniadau a chael llais am bob mater sy’n ymwneud â hwy neu sy’n effeithio ar eu bywydau." Mae’r hawl i gyfranogi hefyd yn rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (UNCRC).

Ym mis Ionawr 2007, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Safonau Cyfranogiad ar gyfer Cymru, y’u datblygwyd ar y cyd â Phlant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Maen nhw’n amlinellu safonau isafswm yn ymwneud â chyfranogiad y mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i’w derbyn oddi wrth wasanaethau, sefydliadau ac asiantaethau maen nhw’n ynghlwm â nhw. Gweler hefyd y Llawlyfr ar Gyfranogiad Ieuenctid.

Mae angen i wasanaethau adnabod bod ymglymiad pobl ifanc yn eu datblygiad nid yn unig yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus, ond mae hefyd yn hysbysu cynnydd yn y dyfodol. Mae yna agweddau allweddol o’r gwasanaeth y dylai fod wrth wraidd ymglymiad pobl ifanc gan gynnwys:

- Adnabod anghenion gwybodaeth
- Darparu adborth ar fodlonrwydd yn nhermau’r wybodaeth a roddir
- Adnabod y dulliau mwyaf llwyddiannus o dderbyn gwybodaeth a dilyn y broses wybodaeth
- Esiamplau o arfer gorau

### v. Arolygiaeth Ieuenctid

Gellir sefydlu Arolygiaeth Ieuenctid mewnol. Ffocws yr Arolygiaeth byddai sefydlu nod barcud ar gyda gwybodaeth y’i darperir yn fewnol ac sy’n dod o ffynhonnell allanol. Yna byddai’r Arolygiaeth Ieuenctid yn cyfrannu at ddilysiad ffynonellau, adnoddau, sefydliadau ac asiantaethau. Byddai hefyd yn ceisio amlygu sut mae angen i’r gwasanaeth(au) symud ymlaen a gwella.

## c. Cofnodi canlyniadau ac ymyriadau

### i. Canlyniadau a chofnodi

Mae sawl modd o gasglu gwybodaeth ar ganlyniadau ac ymyriadau (Dylai pob cofnod o ddata personol fod yn amodol ar bolisïau diogelu data a chyfrinachedd, a chael cydsyniad yr unigolyn dan sylw):

- Dylech gael ffurflen manylion personol i gofnodi gwybodaeth a roddir a'r cyswllt. Gall hwn gynnwys: Oedran; Rhyw; Natur yr Ymholiad; Ymateb; a Chamau Pellach
- Wrth ddarparu gwybodaeth bydd angen nodi a chofnodi unrhyw fylchau y'u hadnabuwyd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. blychau yn y gwasanaeth
- Ar gyfer ymyriadau, atgyfeiriadau, cyfeiriadau ayyb, dylid cadw ffurflenni yn unol â gofynion diogelu data a'u dinistrio yn ddiweddarach. Unwaith eto manylion sylfaenol yn unig megis llwybr atgyfeirio ayyb sydd DDIM yn adnabod y person ifanc y gellir eu cadw ar gyfer y broses fonitro
- Gellir gofyn i bobl ifanc am ganiatâd i ysgrifennu astudiaeth achos a chael gwybodaeth bellach gyda chydsyniad ysgrifenedig
- Gellir defnyddio Demonstrating Success yn dibynnu ar natur y cyswllt (Am ragor o wybodaeth gweler: http://demonstratingsuccess.co.uk/)
- Darperir ffurflenni gwerthuso neu adborth ar ôl rhoi'r wybodaeth neu ddefnyddio'r gwasanaeth. Fel arall, gellir defnyddio'r ffurflenni hyn i werthuso delwedd a gallu'r gwasanaethau i ddenu'r grŵp targed.

### ii. Manteision Cofnodi ac Adrodd

Bydd system a safonau sicrhau ansawdd yn caniatáu ar gyfer y canlynol:

- Adnabod bylchau mewn gwybodaeth
- Pennu canlyniadau allweddol trwy ddilyn y cysylltiadau o'r wybodaeth er mwyn rhoi syniad o'r pellter a deithiwyd
- Amlygu moddau posib o fynd i'r afael â bylchau gyda phartneriaid allweddol
- Mewnbwn ac ymglymiad uniongyrchol pobl ifanc yn cynyddu lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth; a thrwy hynny y defnydd o wybodaeth, a mynediad at wasanaethau
- System fonitro da yn cynnwys ac yn gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc, yn llenwi'r bwlch rhwng gwasanaethau a'u grwpiau targed. Hefyd yn cefnogi prosesau goruchwylio
- Adnabod dulliau gwell o gyfathrebu a chadw'n gyfredol gyda datblygiadau technolegol.

### ch. Gwerthuso canlyniadau

#### i. Monitro a Gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso yn hanfodol wrth sefydlu gallu cynhyrchu ac yn allweddol ar gyfer y broses o fyfyrio ac o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Dylent fod yn brosesau addysgiadol yn hytrach nag yn rhai cyfansymiol, sy'n gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth.

Gellir cynhyrchu Fframwaith Werthuso sy'n amlinellu'r amcanion allweddol, gweithgareddau, allbwn, canlyniadau ac yn nodi mesuriadau llwyddiant a datblygiad. Dylai'r fframwaith annog sefydliadau partner, gweithwyr proffesiynol, a phwysicaf oll, pobl ifanc yn y broses fonitro.

Esiampl:
Strwythur monitro a gwerthuso

- Amcanion (Nodau)
- Gweithgareddau (O ran cyflawni amcanion)
- Allbwn (O'r gwasanaeth)
- Canlyniadau (Canlyniad ar gyfer y Person Ifanc/y Gwasanaeth ei hun)
- Dulliau (Sut i fynd trwy'r broses o'r amcanion i'r canlyniadau)

#### ii. Diogelu, Cyfle Cyfartal ac Ansawdd

Mae sicrhau bod gwasanaeth yn hollol gynhwysfawr ac yn diogelu'u cwsmeriaid, fel y soniwyd eisoes, yn elfen allweddol o sicrhau ansawdd. Ymhlith y meysydd allweddol i'w hystyried mewn perthynas â chyfle cyfartal mae:

- Bydd y gwasanaeth yn ceisio sicrhau cydraddoldeb mynediad at wybodaeth, ar gyfer pob person ifanc 11-25 mlwydd oed, beth bynnag fo'u sefyllfa, oedran, tarddiad, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, iaith, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu gategori cymdeithasol. Mewn perthynas â grwpiau ac unigolion anodd eu cyrraedd ac ymylol, rhoddir ystyriaeth o ran sut i fodloni'u hanghenion penodol
- Cael y gallu i ddarparu gwybodaeth mewn amryw fformatau i fodloni anghenion y defnyddiwr
- Cael amrywiaeth eang o wybodaeth ar gyfer systemau credoau ac ati
- Cael rhwydwaith dda o bartneriaid gellir eu defnyddio er mwyn sicrhau y gellir darparu arbenigedd mewn maes penodol
- Peidio byth â gwrthod ymholiad na fedrwch chi ymdrin â hi'n uniongyrchol, ond yn hytrach cyfeirio a/neu atgyfeirio gan sicrhau y gellir bodloni gofynion iaith ac adnabod y boblogaeth darged o fewn eich maes gwaith
- Bod yn agored a heb ragfarn yn eich ymagwedd

Meysydd allweddol i'w hystyried mewn perthynas â diogelu yw::

- Mae’r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn ddilys, yn berthnasol, yn gyfredol ac yn gywir
- Mae'r cyfreithiau mewn perthynas â meysydd penodol o wybodaeth e.e. Defnyddio cyffuriau yn cael eu cydnabod, eu hamlinellu a'u dilyn
- Mae gennych lefel dda o ddealltwriaeth a rydych yn gallu cymhwyso eich polisïau a gweithdrefnau sefydliadau yn ymarferol
- Mae unrhyw wybodaeth a rowch, unrhyw gyfeirio neu atgyfeirio y byddwch yn gwneud yn ddibynadwy, a gyda’r holl elfennau sy'n diogelu person ifanc wrth gael mynediad i'r lefel gorau posib o wasanaeth e.e. staff hyfforddedig; adnoddau o ansawdd, profion y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB): polisïau a gweithdrefnau yn unol â'r gwaith sy'n cael ei wneud; cynnwys priodol a / neu allu i gwrdd ag anghenion pobl ifanc
- Cydnabyddiaeth ac anghenion cyfathrebu ardderchog er mwyn sicrhau bod y person / pobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda nhw yn cael gofal, sylw, cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol

Cyfleoedd i roi adborth hefyd i sicrhau eich bod yn dod i wybod am holl anghenion gwybodaeth y bobl ifanc.

## 7. Arferion a Gweithdrefnau Prosiectau/Sefydliadau

### a. Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae gweithwyr ieuenctid mewn sefyllfa llawn ymddiriedaeth, yn dilyn deddfwriaeth amddiffyn plant er mwyn sicrhau na fod pobl ifanc mewn peryg o gael eu niweidio. Mae diogelwch plant a phobl ifanc yn hollbwysig mewn gwaith gwybodaeth ieuenctid.

Y brif ddeddfwriaeth wrth weithio gyda phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed yw Deddf Plant 1989. Yn ôl adran 3(5) disgrifir cyfrifoldeb pobl heblaw am rieni h.y. gweithwyr ieuenctid, fel gwneud beth sy'n rhesymol at ddibenion diogelu neu hyrwyddo lles plentyn tra bod y plentyn yng ngofal y gweithiwr hwnnw. Crynhoir hyn fel Dyletswydd Gofal, sydd wedi cael ei ddehongli mewn cyfraith achosion fel y ddyletswydd i ymddwyn fel byddai rhiant gofalus yn gwneud.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan y'u sefydlwyd yn 2008 yn adlewyrchu newidiadau arwyddocaol yn neddfwriaeth wedi'u hysbysu gan y wybodaeth a phrofiadau y'u rhannwyd gan y 22 Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yng Nghymru. Daeth y newidiadau yn sgil nifer o adroddiadau ar amddiffyn plant ac maen nhw'n ymwneud ag ystod eang o faterion yn ymwneud ag amddiffyn, gan gynnwys y rhyngrwyd, trais yn y cartref, camddefnyddio sylweddau, a bwlio y cafodd eu cynnwys yn y diffiniadau ehangach o gamdriniaeth gydag esboniadau pellach yn adnabod niwed arwyddocaol.

Er mwyn sicrhau diogelwch gweithwyr a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda, dylai sefydliadau gael gweithdrefnau amddiffyn yn eu lle gan gynnwys Polisi Amddiffyn Plant. Ymhlith deddfwriaeth mwy diweddar yn ymwneud â gweithio gyda phlant a phobl ifanc mae Deddf Troseddwyr Rhyw 1997 a Rhan V o Ddeddf Heddlu 1997. Mae hwn yn cynnwys dyletswydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol i ymgymryd â phrofion cofnod troseddol ar unrhyw un sy'n dymuno gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae angen prawf gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (a elwir yn Ddatgeliadau) ar yr holl staff cyflogedig a di-dâl sydd mewn cysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc. Ceir diffiniadau o'r math o gyswllt a gwahanol fathau o wiriadau yn unol â hynny. Bydd gofyn i ymgeiswyr ar gyfer swyddi, cyflogedig a di-dâl ac i bobl ifanc dros 18 (neu weithiau 16) i gael Datgeliad a bod gan sefydliadau gweithdrefnau yn eu lle i gael gafael arnynt. Nid yw presenoldeb cofnod troseddol o reidrwydd yn eithrio pobl rhag gweithio, oni bai bod y datgeliad yn nodi rhywbeth sy'n rhoi plant a phobl ifanc mewn perygl, neu fod y person ar restr wahardd.

Mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) wedi sefydlu cynllun fetio a gwahardd yn dilyn deddfwriaeth i gofrestru pawb sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed dan amgylchiadau diffiniedig ac i wahardd unrhyw berson nad yw'n ystyried yn addas. Bydd yn orfodol i sefydliadau wirio a yw eu gweithlu wedi cofrestru gyda'r ISA ac mae'n drosedd i ymgysylltu unrhyw un sydd wedi ei wahardd.

## b. Diogelu Data a Chyfrinachedd

Mae'r Ddeddf Diogelu Data a'r polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith mewn sefydliadau yn unol â'r Ddeddf, yn ymwneud â gwybodaeth a gedwir am unigolion boed wedi'i brosesu â llaw neu'n electronig. Mae polisïau Diogelu Data yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu yn deg, yn gywir ac yn gyfredol, yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol a'i fod yn berthnasol ac yn cael ei defnyddio am resymau dilys yn unig. Mae gan unigolion yr hawl i wneud cais i weld y wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt ac mae hyn yn berthnasol i weithwyr ac i bobl ifanc.

Mae cyfrinachedd yn hanfodol mewn gwaith gwybodaeth gyda phobl ifanc er mwyn sefydlu perthynas o ymddiriedaeth a diogelu lles y person ifanc. Fodd bynnag, gall gweithwyr dod i wybod am amgylchiadau personol anodd gan bobl ifanc a dylent fod yn gallu sylweddoli pryd mae angen cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill sydd â sgiliau a gwybodaeth arbenigol neu lle mae ymyrraeth yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch y bobl ifanc.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig bod gweithwyr a phobl ifanc yn glir ynghylch pryd y bydd gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol, a phryd y bydd yn rhaid ei throsglwyddo i bobl eraill os oes mater Amddiffyn Plant. Mae'n arfer cyffredin i roi gwybod i bobl ifanc am yr amgylchiadau hyn cyn neu yn ystod datgeliad un-i-un, gan egluro pam na all y wybodaeth aros yn gyfrinachol mewn ffordd y gallant ei deall tra'n dal i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Weithiau, gall hyn hefyd olygu gweithredu fel eiriolwyr dros bobl ifanc mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd anodd.

# 8. Cysylltiadau Defnyddiol

## Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Sgiliau Sylfaenol Cymru | 0845 602 1654<br>www.basic-skills-wales.org |
| Tudalen Dysgu'r BBC | www.bbc.co.uk/learning |
| Cyngor BBC Cymru ar ysgrifennu CV | http://www.bbc.co.uk/wales/justthejob/jobs/cvs.shtml |
| Canllaw'r BBC ar Adolygu | www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/ |
| Gyrfa Cymru | 0800 100 900<br>www.careerswales.com |
| Dewisiadau a Heriau i Bobl Ifanc Anabl | www.after16.org.uk |
| Canolfan Cyngor ar Bopeth | www.adviceguide.org.uk |
| Connexions (gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc sy'n gweithio neu'n ymgymryd â hyfforddiant) | 08080 013 219<br>www.connexions-direct.com |
| Yr Adran Addysg a Sgiliau | 0300 0603300<br>E-bost: dcells.enquiries@wales.gsi.gov.uk<br>Gwe: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/ |
| Direct Gov – gwefan swyddogol y llywodraeth i ddinasyddion | http://www.direct.gov.uk/en/Employment /Jobseekers/index.htm |
| DO IT – gwybodaeth ar wirfoddoli a chronfa ddata o gyfleoedd – chwiliwch am gyfleoedd yn y DU | www.do-it.org.uk |
| Gwobr Dug Caeredin | 01753 727400<br>http://www.dofe.org/ |
| Dyslecsia Cymru | 01558 685644<br>www.dyslexiawales.com |
| Canllaw ar fod yn fyfyriwr | 0207 189 8339<br>www.studentuk.com |
| Canolfan Byd Gwaith | 0845 6060 234<br>www.jobcentreplus.gov.uk |
| Gwirfoddolwyr y Mileniwm – cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc 16-24 mlwydd oed | http://www.gwirvol.org/en/volunteering/mv/ |

| | |
|---|---|
| Gwirfoddoli | http://www.gwirvol.org/ |
| Swyddfa Cenedlaethol ar gyfer Myfyrwyr gydag Anableddau | 0800 328 5050<br>www.skill.org.uk |
| Y Brifysgol Agored | 01908 274066<br>www.open.ac.uk |
| Cyngor a cymorth ar adolygu | 01793 615 439<br>www.studysuccess.co.uk |
| Cyllid Myfyrwyr Cymru | 0845 602 8845<br>www.studentfinancewales.co.uk |
| Time Bank – gwybodaeth ar wirfoddoli – rhestr o'r holl brif sefydliadau gwirfoddoli gyda chyfleoedd yn y DU a thramor | www.timebank.org.uk |
| Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) | 0870 1122211<br>www.ucas.ac.uk |
| Gwirfoddoli Cymru – gwybodaeth ar wirfoddoli a chronfa ddata o gyfleoedd yng Nghymru – chwiliwch am gyfleoedd yn eich ardal leol | www.volunteering-wales.net |
| Llywodraeth Cymru | 02920 825 111<br>www.wales.gov.uk |
| Cydbwyllgor Addysg Cymru | 02920 265 000<br>www.wjec.co.uk |
| Gwybodaeth Ieuenctid o Asiantaeth Ieuenctid Cenedlaethol Lloegr | http://www.nya.org.uk/youthinformation-com |

**Iechyd**

| | |
|---|---|
| Gwefan y BBC | www.bbc.co.uk/health/healthy_living |
| Brook Helpline – gwybodaeth rhywiol am ddim a chyfeirio ar gyfer pobl ifanc o dan 25. | 0800 0185 023 Rhadffôn<br>http://www.brook.org.uk/ |
| **Childline** – llinell gymorth 24 awr am ddim i bobl ifanc siarad am unrhyw broblem | 0800 11 11<br>www.childline.org.uk |
| Gwasanaeth cynghori i bobl ifanc ym Mhen-y-bont rhwng 11-25 mlwydd oed | 01656 815150 |

| | |
|---|---|
| DAN 24/7 Wales – cyffuriau ac alcohol | 0800 633 5588<br>http://dan247.org.uk/ |
| Atal cenhedlu brys | 01639 862155 |
| Cymdeithas Cynllunio Teulu | http://www.fpa.org.uk/ |
| Mental Health Matters | 01656 767045<br>http://www.mhmbcb.com/ |
| Llinell Gymorth Genedlaethol ar Gyffuriau - Frank – *cyngor i unrhyw un sy'n poeni am gyffuriau* | 0800 77 66 00<br>www.talktofrank.com |
| Galw Iechyd Cymru – *cyngor 24 awr cyfradd lleol ar gyfer argyfyngau meddygol* | 0845 46 47 |
| NSPCC | 0808 800 5000<br>www.nspcc.org.uk |
| Siarad am Ryw | http://www.nhs.uk/worthtalkingabout/Pages/sex-worth-talking-about.aspx |
| Y Samariaid | 08457 909090<br>www.samaritans.org |
| Sexual Health Direct (Lloegr) | **0845 122 8690**<br>http://www.fpa.org.uk/helpandadvice/fpahelplines |
| Ymddiriedolaeth Terrence Higgins | www.tht.org.uk |

**TAI**

| | |
|---|---|
| Housemate – gwefan yn ymwneud â phobl ifanc, tai a digartrefedd | www.housemate.org.uk |
| Missing Persons Message Home Helpline (help i bobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd i gael negeseuon at adref a dod o hyd i lety) | 0808 8007070<br>http://www.missingpeople.org.uk |
| Cyngor a chefnogaeth cyfrinachol y Samariaid | 08457 90 90 90<br>www.samaritans.org |
| Shelter Cymru<br>(Help 24 awr gyda phroblemau tai) | 0808 8004444<br>http://www.sheltercymru.org.uk/home/ |
| Wallich Clifford Community<br>(gwasanaeth allgymorth) | 07734 468603 |

**PERTHNASAU**

| | |
|---|---|
| Wythnos Gwrth Fwlio | www.antibullyingweek.org |
| Beat Bullying | www.beatbullying.org |
| Bullying Online | www.bullying.co.uk |
| Childline | 0800 11 11<br>www.childline.org.uk |
| Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd | http://www.education.gov.uk/schools/pupilsupport/behaviour/bullying |
| Gwybodaeth Directgov ar y mwyafrif o faterion | www.direct.gov.uk |
| Mae Pob Plentyn yn Bwysig | www.everychildmatters.gov.uk |
| Free From Bullies | www.freefrombullies.com |
| Kidscape | www.kidscape.org.uk |
| Childline | http://www.childline.org.uk/Pages/Home.aspx |
| Y Samariaid | 08457 90 90 90<br>www.samaritans.org |
| Stonewall Cymru – Elusen lesbiaidd, hoyw a deurywiol | 08000 502020<br>www.stonewall.org.uk |
| Stop Cyberbullying | www.stopcyberbullying.org |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Parchu Eraill: Cylchlythyr Cyfarwyddyd Gwrth Fwlio* 23/03 | gellir dod o hyd i'r ddogfen ar www.wales.gov.uk |
| Cymorth i Fenywod - yn helpu os ydynt yn dioddef neu'n gweld trais yn y cartref | www.welshwomensaid.org |

**Y BYD, EWROP, Y DU A CHYMRU**

| | |
|---|---|
| Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon | www.carbonfootprint/calculator.aspx |
| Newid yn yr Hinsawdd | www.climatechange.eu.com |
| Ysgolion Eco Cymru | www.eco-schoolwales.org |
| Tudalen adnoddau amgylcheddol | www.envirolink.org |
| Masnach Deg | www.fairtrade.org.uk |
| Gwobr Dug Caeredin | http://www.dofe.org/ |
| Cyfeillion y Ddaear | 0808 800 111<br>www.foe.co.uk |
| Greenpeace | 0207 865 8100<br>www.greenpeace.org.uk |
| Cadwn Prydain yn Daclus | 01942 612 621<br>http://www.keepbritaintidy.org/ |
| Cylchgrawn The Ecologist | www.theecologist.org |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | 08708 506 506<br>www.environment-agency.gov.uk |
| Cynllun Craff am Wastraff | 0845 330 5540<br>www.wasteawarenesswales.org.uk |
| Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd | 01483 426 444<br>www.wwf-uk.org |

## Y GYFRAITH A HAWLIAU

| | |
|---|---|
| Plant yng Nghymru – Cyfranogiad | www.childreninwales.org.uk |
| Taflen yn esbonio Hawliau a Chyfrifoldebau Plant fesul oedran | http://www.unicef.org/rightsite/files/rights_leaflet.pdf |
| Canolfan Cyngor ar Bopeth | www.citizensadvice.org.uk |
| CLIC | www.cliconline.co.uk |
| Direct Gov – Tudalen y Llywodraeth ar Hawliau Dinasyddion | http://www.direct.gov.uk/en/Governmentcitizensandrights/index.htm |
| Draig Ffynci (llywodraeth plant a phobl ifanc Cymru) | www.funkydragon.org |
| Y Gyfraith a Hawliau fesul Categori Oedran | http://www.thesite.org/homelawandmoney/law/yourrights/whatagecani |
| Symud Ymlaen: Hawliau a Chyfrifoldebau Oedolion Ifanc | http://www.legislature.mi.gov/documents/Publications/MovinOn.pdf |
| Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogi Cymru – Safle i weithwyr | www.participationworkerswales.org.uk |
| Rights 4 Me | www.rights4me.org |
| Cynghorau Ysgol (grŵp etholedig o fyfyrwyr yn gwneud cyfraniad positif i ysgolion) | 0845 456 9428<br>www.schoolcouncils.org |
| Tros Gynnal – hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc | www.trosgynnal.org.uk |
| Canllaw Pobl Ifanc ar y Papur Gwyrdd ar Hawliau a Chyfrifoldebau | http://www.justice.gov.uk/publications/docs/right-responsibilities-young-people.pdf |
| Llywodraeth Cymru | www.wales.gov.uk |

## CHWARAEON A HAMDDEN

| | |
|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru (cyllido) | www.artswales.org.uk |
| Arian i Bawb | www.awardsforall.org.uk/wales |
| Tudalen y BBC ar gymryd rhan mewn ffilm, cerddoriaeth, ysgrifennu, celf a dawns | www.bbc.co.uk/blast |
| Cerddoriaeth BBC Cymru | www.bbc.co.uk/wales/music |
| Gwefan y BBC | www.bbc.co.uk |
| Gwobr Dug Caeredin | www.dofe.org |
| Asiantaeth Ffilm Cymru | www.filmagencywales.com |
| Arian y loteri – yr holl gyllid sydd ar gael gan y loteri | www.lotteryfunding.org.uk |
| Cyngor Chwaraeon Cymru – chwilio am glybiau chwaraeon a chyllid ar eu cyfer | http://www.sportwales.org.uk/ |
| Canolfan Mileniwm Cymru | www.wmc.org.uk |

**Atodiad**

**Ffurflen Cysylltiadau Lleol Allweddol**

Cwblhewch y ffurflen hon gyda manylion cyswllt allweddol ar gyfer y gwasanaethau ac unigolion y gallwch gyfeirio neu atgyfeirio pobl ifanc atynt, neu y gallwch ymgynghori â hwy am gyngor arbenigol.

Bydd y ffurflen hon yn rhoi adnodd cynhwysfawr i weithwyr ieuenctid i'w galluogi i ymdrin ag ymholiadau pobl ifanc yn effeithiol ac yn briodol, heb orfod chwilio yn ddiangen am fanylion cyswllt.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn, mae'n bwysig gwirio a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd. Gellir llungopïo'r ddogfen a'i chadw wrth law, er mwyn gallu cyfeirio ati mewn argyfwng neu y tu allan i oriau 'swyddfa'.

| **Swyddog Amddiffyn Plant ar Ddyletswydd (Atgyfeiriadau y tu allan i oriau)** |
|---|
| |

| **Swyddog Amddiffyn Plant Enwebedig (ar gyfer eich gwasanaeth)** |
|---|
| |

| **Swyddog Tai – Adran Digartrefedd** |
|---|
| |

| **Gwasanaeth Cynghori Ieuenctid a Iechyd Rhywiol** |
|---|
| |

| **Gwasanaeth Cynghori** |
|---|
| |

| **Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc** |
|---|
| |

| **Tîm Ôl-ofal Gwasanaethau Cymdeithasol** |
|---|
| |

**Canolfan Cyngor ar Bopeth**

**Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyfryngu**

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol**

**Gorsaf Heddlu Leol**

**Cynghorydd ar Fudd-daliadau i Bobl Ifanc**

**Cyngor ar Yrfaoedd**